Chwarae Cymru
Play Wales



# Chwarae y tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar

Pecyn cymorth

www.chwarae.cymru

ISBN: 978-1-914361-21-0

© Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ar wahân i'r adnoddau, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd, CF10 3AF.

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

Ionawr 2025

# Cynnwys


## Am y pecyn cymorth hwn 4

- Ar gyfer pwy mae'r pecyn? 4
- Pam ddatblygwyd y pecyn? 4
- Sut ddatblygwyd y pecyn? 4
- Defnyddio'r pecyn cymorth 4

## Adran 1 – Pwysigrwydd chwarae 5

- Buddiannau chwarae'r tu allan 5
- Amgylchedd chwarae cyfoethog a gwerth chwarae 6
- Offeryn 1: Awgrymiadau anhygoel – bod yn llysgennad chwarae 7
- Offeryn 2: Templed – polisi chwarae y tu allan 8
- Offeryn 3: Deunyddiau hyrwyddo ar gyfer lleoliadau 9

## Adran 2 – Asesu mannau awyr agored 10

- Offeryn 4: Nodweddion amgylchedd chwarae cyfoethog 11
- Offeryn 5: Offeryn hunanasesu – darparu amgylchedd chwarae cyfoethog 12
- Offeryn 6: Plant fel archwilwyr – syniadau ar gyfer archwiliadau 16
- Offeryn 7: Rhestr wirio archwiliad gofod chwarae 17
- Offeryn 8: Offeryn archwilio gofod chwarae 19
- Offeryn 9: Asesiad gwerth chwarae 20
- Offeryn 10: Asesu gwerth chwarae gyda phlant 23

## Adran 3 – Hwyluso chwarae'r tu allan 24

- Offeryn 11: Datblygu canllawiau ar gyfer amser chwarae yn ystod tywydd garw 25
- Offeryn 12: Templed – gwybodaeth i rieni 26
- Offeryn 13: Arddulliau ymyrryd 27
- Offeryn 14: Mathau chwarae 28
- Offeryn 15: Rhannau rhydd 29
- Offeryn 16: Arsylwi chwarae plant 30
- Offeryn 17: Templed – polisi rheoli risg 32
- Offeryn 18: Templed – asesu risg-budd 34

## Adran 4 – Cefnogi staff 35

- Offeryn 19: Sesiwn hyfforddi: chwarae'r tu allan 36
- Offeryn 20: Cwestiynau i gefnogi ymarfer myfyriol 40
- Offeryn 21: Rhestr ddarllen – darnau byr gyda chwestiynau myfyriol 42
- Offeryn 22: Fideos gyda chwestiynau myfyriol 45

## Diolchiadau 46

## Atodiad 1 – Nodyn briffio methodoleg 47

# Am y pecyn cymorth hwn

## Ar gyfer pwy mae'r pecyn?

Mae'r pecyn cymorth *Chwarae y allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar* wedi ei gynhyrchu i gefnogi ymarferwyr ac asiantaethau sy'n gweithio gyda babanod, plant bach a phlant iau mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant ac i sefydliadau sy'n anelu i ymgysylltu gyda theuluoedd. Er cysondeb, byddwn yn cyfeirio at 'blant' a 'lleoliadau blynyddoedd cynnar' trwy'r pecyn cymorth.

## Pam ddatblygwyd y pecyn?

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei gynhyrchu i gefnogi ymarferwyr ac asiantaethau sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar i gefnogi ac eiriol dros gyfleoedd i blant chwarae'r tu allan bob dydd.

Pwrpas y pecyn cymorth yw sicrhau newid ar ddwy lefel:

- defnydd ymarferol o hawl plant i chwarae ar lefel lleoliad
- gwell ymwybyddiaeth am yr hawl i chwarae ar lefel teuluol.

Mae wedi ei ddylunio i:

- ddarparu gwybodaeth glir a chryno i leoliadau ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar i gynyddu cyfleoedd i blant yn eu gofal chwarae a threulio mwy o amser y tu allan
- darparu dulliau ymarferol, cam wrth gam a thempledi i gynorthwyo gyda hwyluso chwarae'r tu allan
- darparu fframwaith ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau.



## Sut ddatblygwyd y pecyn?

Gweithiodd Chwarae Cymru mewn cydweithrediad gydag ymchwilwyr o Brifysgol Caerwysg a Phrifysgol Stirling i gynnal ymchwil cychwynnol a hysbysodd ddatblygiad y pecyn cymorth ac i gynnal gwerthusiad cychwynnol o'r pecyn cymorth. Cynhaliwyd y prosiect mewn chwe cham:

- Cam 1: grŵp ffocws ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Cam 2: datblygu a mireinio'r pecyn cymorth
- Cam 3: datblygu dulliau ar gyfer gwerthuso meintiol ac ansoddol
- Cam 4: cynnal gwerthusiad cychwynnol yn dilyn y peilot
- Cam 5: argymhellion
- Cam 6: cynhyrchu'r pecyn cymorth terfynol.

Ceir mwy o wybodaeth am ddatblygu'r pecyn cymorth yn y nodyn briffio methodoleg yn Atodiad 1.

## Defnyddio'r pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys pedair adran:

1. **Pwysigrwydd chwarae'r tu allan** – mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am y buddiannau uniongyrchol a disymwth y mae mynediad i chwarae'n ei roi i blant. Mae hefyd yn cynnwys disgrifiad o amgylchedd chwarae cyfoethog, sy'n diffinio'r nodweddion sydd eu hangen i helpu plant i wneud y mwyaf o'u cyfleoedd i chwarae.
2. **Asesu mannau awyr agored** – mae'r adran hon yn cynnwys nifer o ddulliau ar gyfer archwilio, asesu a chynllunio gofodau ar gyfer chwarae'r tu allan.
3. **Hwyluso chwarae'r tu allan** – mae'r adran hon yn cynnwys syniadau ar gyfer ymgysylltu gyda rhieni, asesu risg-budd ac arsylwi.
4. **Cefnogi staff** – mae'r adran hon yn cynnwys archwiliad sgiliau, syniadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a rhestr ddarllen o gyhoeddiadau gyda chwestiynau myfyriol.

# Adran 1 – Pwysigrwydd chwarae

**Mae gan blant hawl i chwarae, fel y cydnabyddir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Chwarae yw un o agweddau mwyaf uniongyrchol a phwysig bywydau plant – maent yn gwerthfawrogi amser, mannau o safon a rhyddid i chwarae.**

Yn Sylw Cyffredinol rhif 17 ar Erthygl 31, mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod chwarae'n cynnwys nodweddion allweddol hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a pheidio bod yn gynhyrchiol.

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Pan maent yn chwarae, mae plant yn cyfrannu at eu lles uniongyrchol ac at eu datblygiad eu hunain. Mae corff hirsefydlog o dystiolaeth gadarn sy'n dangos y cyfraniad y gall chwarae, ac yn enwedig chwarae a drefnir yn bersonol, ei wneud i les tymor hir ac uniongyrchol plant, i'w iechyd corfforol ac i'w iechyd meddwl a'u gwytnwch. Mae gwahanol astudiaethau wedi dod i gasgliad bod:

- **Chwarae yn cefnogi cymdeithasoli:** pan fyddant yn chwarae bydd plant yn rhyngweithio gydag eraill, yn datblygu cyfeillgarwch ac ymlyniad gyda chyfoedion, yn delio gyda gwrthdaro, ac yn dysgu parch a goddefgarwch.
- **Mae chwarae'n cynyddu gwytnwch:** mae chwarae'n atgyfnerthu rheoleiddio emosiwn, hyder a chreadigrwydd plant, gan eu galluogi i ymdopi gyda straen a heriau trwy gydol eu bywydau.
- **Mae chwarae'n hanfodol ar gyfer iechyd a lles da:** mae bod yn fywiog trwy chwarae'n helpu plant yn gorfforol ac yn emosiynol, gan gyfrannu at eu hiechyd a'u hapusrwydd.
- **Mae chwarae'n cynorthwyo plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach:** mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u hamgylch, creu cysylltiadau, a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn.
- **Mae chwarae'n cefnogi dysg a datblygiad:** mae chwarae'n adeiladu strwythurau'r ymennydd a sgiliau megis meddwl beirniadol.

Chwarae'r tu allan yw un o'r deg cam sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu plant yn y blynyddoedd cynnar i gynnal pwysau iach a hyrwyddir yn rhaglen Pob Plentyn Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gyfer plant o'u geni i bum mlwydd oed. Mae cam chwech yn canolbwyntio ar chwarae'r tu allan, gyda'r uchelgais y rhoddir cyfle i bob plentyn chwarae'r tu allan bob dydd.

## Buddiannau chwarae'r tu allan

Mae llawer yn cydnabod bod chwarae'r tu allan a dysgu seiliedig ar chwarae yn yr awyr agored yn gadarnhaol ac yn gwella bywyd. Ceir tystiolaeth gref bod chwarae a dysgu'r tu allan yn cynnig nifer o fuddiannau i blant. Mae chwarae'r tu allan yn cyfrannu at ystod eang o ddeilliannau iechyd a lles, yn cynnwys:

- gwell cryfder cyhyrol a ffitrwydd aerobeg
- gwell ystwythder, ystod symudiad, hyblygrwydd, cydsymudiad a chydbwysedd, a llai o flinder, straen ac iselder
- gostyngiad mewn pwysedd gwaed mewn plant gyda phwysedd gwaed uchel (yn enwedig ar gyfer gweithgarwch aerobeg), a gwelliannau mewn lefelau colesterol a dwysedd esgyrn
- cynnydd yn llif y gwaed a chymeriant ocsigen
- gwell iechyd meddwl
- gwell hunan-barch a gweithredu gwybyddol.

Mae cyfleoedd anffurfiol i chwarae'n rhoi cyfle i blant gefnogi eu lles uniongyrchol tra'n cynyddu'n naturiol sgiliau bywyd sy'n cyfrannu at ddeilliannau datblygiad tymor hir. Mae rhinweddau fel datrys problemau, gwaith tîm a rheoleiddio emosiynol yn cael eu mireinio wrth i blant chwarae. Mae ymchwil yn dangos hefyd bod amser, lle a rhyddid i chwarae'n gallu bod o fudd mawr i iechyd meddwl plant, gan leddfu straen a lleihau effaith niweidiol trawma. Mae'n bwysig cofio bod chwarae'n rhywbeth y bydd plant yn ei wneud pryd bynnag cânt gyfle. Dyma eu ffordd nhw o gefnogi eu hiechyd a'u lles eu hunain.

## Amgylchedd chwarae cyfoethog a gwerth chwarae

Bydd plant yn chwarae ble bynnag y maen nhw ac ym mhob math o fannau, ond mae rhai gofodau wedi'u creu gyda'r bwriad penodol o gefnogi chwarae plant. Nid oes angen offer chwarae arbenigol o reidrwydd. Mae gofodau naturiol fel coedydd, traethau, gerddi cymunedol ac afonydd yn cefnogi chwarae plant hefyd. Mae dŵr, coed a llwyni'n newid gyda'r tymhorau a gall plant eu defnyddio mewn amrywiol ffyrdd, gan gael llawer allan o chwarae gyda'r hyn sydd yno'n naturiol.

Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn un amrywiol a diddorol. Mae'n le ble gall plant:

- chwarae yn eu ffordd eu hunain
- gwneud amryw o ddewisiadau
- cael llawer o bosibiliadau i greu a datblygu eu chwarae eu hunain.

Yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, mae Llywodraeth Cymru'n datgan:

'Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn un hyblyg a diddorol, y gellir ei addasu a'i amrywio. Mae'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gymdeithasu, i fod yn greadigol a dyfeisgar, ymateb i heriau a gwneud dewisiadau. Mae'n fan cyhoeddus yr ymddiriedir ynddo lle mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, yn eu hamser eu hunain, ar eu telerau eu hunain.'

Mae'r term gwerth chwarae yn disgrifio amrediad ac ansawdd y cyfleoedd a'r profiadau chwarae a gynigir gan amgylchedd chwarae. Fe'i defnyddir hefyd i ddisgrifio'r gwerth y bydd gofod neu ddarn o offer yn ei gynnig i blant i'w helpu i ehangu eu chwarae. Mae gofod sy'n gyfoeth o werth chwarae'n creu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o brofiadau chwarae corfforol, cymdeithasol a synhwyraidd.



Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn cynnig cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd gyda neu i brofi'r canlynol:

- plant eraill
- y byd naturiol
- rhannau rhydd
- y pedair elfen
- her ac ansicrwydd
- newid hunaniaeth
- symud
- chwarae gwyllt
- y synhwyrau.

### Offer Adran 1

Offeryn 1: Awgrymiadau anhygoel – bod yn llysgennad chwarae

Offeryn 2: Templed – Polisi chwarae y tu allan

Offeryn 3: Deunyddiau hyrwyddo ar gyfer lleoliadau

# Offeryn 1: Awgrymiadau anhygoel – bod yn llysgennad chwarae

**Mae'r awgrymiadau hyn yn fan cychwyn ar gyfer ehangu eich sgiliau arweinyddol ym maes pwysig eiriol dros chwarae.**

## Byddwch yn barod

Mae eiriol yn effeithlon yn galw am rywfaint o waith paratoi. Mae adfywio eich gwybodaeth am bwysigrwydd chwarae'n ffordd dda i ymbaratoi. Bydd adolygu materion llosg yn eich helpu i benderfynu sut y byddwch yn rhaeadru gwybodaeth i eraill.

## Defnyddiwch brofiadau ac atgofion

Yn aml, gall annog eraill i gofio eu hatgofion chwarae eu hunain fod yn atgofus ac mae'n eu helpu i ddeall pwysigrwydd cefnogi chwarae. Mae ychwanegu at ffeithiau a gwaith ymchwil gyda straeon gan blant ac atgofion gan bobl eraill yn ddull eiriol effeithlon.

## Clustnodwch eich cynulleidfaoedd

Pwy sydd â'r pŵer a'r cyfrifoldeb i gyflawni'r newid yr ydych yn chwilio amdano? Pwy fydd y newid yn effeithio arnynt?

- Uwch-dîm rheoli
- Staff y lleoliad
- Rhieni
- Plant.

## Myfyriwch ar eich arferion eiriol cyfredol

Dechreuwch trwy feddwl am y ffyrdd yr ydych yn eiriol dros y plant yn eich gofal ar hyn o bryd, mewn gwahanol amgylcheddau, megis cyfarfodydd staff, mewn cyfarfodydd rhwydwaith, mewn sesiynau goruchwylio staff, mewn trafodaethau gyda rhieni. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i fod yn eiriolwr ac yn arweinydd yn yr amgylcheddau hyn? Beth arall allech chi ei wneud i eiriol dros chwarae?



## Siaradwch gyda chydweithwyr a'r plant i ddynodi'r materion llosg pwysicaf

Er mwyn dynodi ble mae angen gwaith eiriol, siaradwch gyda'r bobl gaiff eu heffeithio. Gofynnwch pa faterion llosg sydd yn peri pryder penodol a chytunwch ar negeseuon y gellid eu cyflwyno i uwch-reolwyr, i gydweithwyr neu i rieni.

## Dewiswch fater llosg, ysgrifennwch neu siaradwch amdano a'i rannu gydag eraill

Dewiswch fater neu faterion llosg y gellir eu rhannu gydag eraill (er enghraifft, bwysigrwydd chwarae, cynhwysiant, risg mewn chwarae). Os ydych chi'n brin o amser neu angen rhywfaint o ysbrydoliaeth, gallwch rannu blogiau sydd wedi'u hysgrifennu gan bobl eraill. Darllenwch rai o'r erthyglau blog gwadd ar wefan *Plentyndod Chwareus.*

## Cefnogwch sgiliau eiriol y plant

Sut allwch chi gefnogi plant, teuluoedd a staff newydd i dyfu'n fwy medrus wrth eiriol? Ystyriwch weithio'n uniongyrchol gyda'r plant gan ddefnyddio Offeryn 6: Plant fel archwilwyr – syniadau ar gyfer archwiliadau.

## Cefnogwch sgiliau eiriol eich cydweithwyr

Anogwch eich cydweithwyr i eiriol yn ystod cyfarfodydd a gyda rhieni. Atgoffwch eich cydweithwyr nad yw eiriol effeithlon bob amser yn galw am siarad mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Efallai y byddai'r Awgrymiadau anhygoel ar gyfer cael pobl eraill i feddwl am bwysigrwydd chwarae, a gynhyrchwyd gan *Plentyndod Chwareus*, yn ddefnyddiol i'ch cydweithwyr.

# Offeryn 2: Templed – polisi chwarae y tu allan

**Gall datblygu a mabwysiadu polisi chwarae wneud cyfraniad sylweddol i ddarparu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant. Mae polisi chwarae'n datgan y gwerth y mae'r sefydliad yn ei osod ar chwarae plant. Mae'n amlinellu sut bydd y sefydliad yn cefnogi cyfleoedd chwarae plant.**

**Gellir rhannu'r polisi gyda'r plant, y staff a rhieni a'i gynnwys yn y wybodaeth am y gwasanaeth cymorth ehangach a gynigir.**

## Templed o ddatganiad polisi chwarae

Mae [enw'r lleoliad/sefydliad] yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pob plentyn yn cael amser a mannau da i chwarae bob dydd.

I blant, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Mae chwarae'n cyfrannu at iechyd, lles a hapusrwydd plant yn ogystal ag at eu dysg a'u gallu i ddysgu.

Gellir gwneud cyfraniad positif i fywydau plant trwy werthfawrogi eu hysfa a'u hawydd i chwarae a darparu ar gyfer ystod eang o gyfleoedd chwarae, a hynny dan do a'r tu allan.

Mae'r lleoliad hwn yn cydnabod y bydd plant yn mynd ati'n naturiol i greu a chwilio am sefyllfaoedd heriol. Wrth wneud y mwyaf o'u chwarae efallai y caiff ambell blentyn ddamweiniau, baeddu neu wlychu neu gael ei siomi. Rydym yn cydnabod bod angen i unrhyw berygl o niwed posibl i blant gael ei gydbwyso gyda'r potensial am les allai godi o gymryd rhan mewn ffurf benodol o chwarae. Byddwn yn gwneud ein gorau i osgoi gweld plant yn dioddef niwed corfforol neu emosiynol difrifol trwy reoli'n ofalus y cyfleoedd chwarae y byddwn yn eu darparu.

Mae'r lleoliad hwn yn credu bod agwedd oedolion tuag at, a'u dealltwriaeth o, ymddygiad chwarae plant yn cael effaith sylweddol ar ansawdd y cyfleoedd chwarae a gynigir y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliad.

Felly, bydd y lleoliad hwn yn chwilio am gyfleoedd hyfforddi ac yn cefnogi ymchwil ymhlith ein staff, fel bod aelodau ein tîm yn hyderus i hwyluso chwarae plant a ddewisir o wirfodd ac a gyfarwyddir yn bersonol.

Rydym yn credu y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol i fywydau plant trwy werthfawrogi eu dymuniad a'u hangen i chwarae a darparu ar gyfer ystod eang o gyfleoedd chwarae fel rhan o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer plant a theuluoedd.

Mae [enw'r lleoliad/sefydliad] yn ymrwymo i weithio tuag at sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd digonol bob dydd i chwarae fel y disgrifir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Yn y tymor byr rydym yn ymrwymo i:

•

Yn y tymor canolig rydym yn ymrwymo i:

•

Yn ein cynllunio tymor hir rydym yn ymrwymo i:

•

# Offeryn 3: Deunyddiau hyrwyddo ar gyfer lleoliadau

**Mae gwefan *Plentyndod Chwareus* yn wefan sy'n llawn syniadau chwareus, hwyliog, hawdd i blant eu mwynhau – o adeiladu cuddfannau i greu lluniau gyda blotiau paent, sblasio mewn pyllau dŵr neu chwarae cuddio. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys cynghorion ar gyfer magu plant yn chwareus ac ymuno yn chwarae'r plant.**

**Mae *Plentyndod Chwareus* yn ymgyrch gan Chwarae Cymru.**




Ar y wefan ceir casgliad o syniadau y gellir eu lawrlwytho a'u hargraffu i'w defnyddio:

- Sut i ddelio gyda risg a diogelwch pan fydd dy blentyn yn chwarae
- Awgrymiadau anhygoel ar gyfer chwarae gyda phridd, dŵr, tân ac awyr
- Awgrymiadau anhygoel ar gyfer chwarae yn y tywyllwch
- Awgrymiadau anhygoel ar gyfer chwarae ar ddiwrnod gwlyb
- Sut i ddelio gyda chwarae ymladd a chwarae gwyllt
- Sut i ddelio gyda chwarae poitshlyd
- Sut i ddelio gyda dringo a balansio

# Adran 2 – Asesu mannau awyr agored

**Rôl lleoliadau blynyddoedd cynnar yw cefnogi plant i brofi amrywiaeth o gyfleoedd sy'n cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol da. Mae chwarae'r tu allan bob dydd yn cefnogi ystod eang o fuddiannau datblygiadol ac uniongyrchol.**

Mae pob lleoliad yn wahanol, gyda ffyrdd penodol o weithredu, ond dylai pob plentyn gael cyfle i brofi:

- mynediad i ofod chwarae awyr agored a threulio amser y tu allan, bob dydd
- cyfleoedd i symud rhwng amgylcheddau dan do ac awyr agored ar oedran priodol
- cyfleoedd i archwilio'r amgylchedd naturiol
- adnoddau gwahanol ac amrywiol i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i chwarae'r tu allan.

Mae gan leoliadau eu ffyrdd eu hunain o weithredu ac adeiladau/safleoedd sydd neu sydd ddim yn bwrpasol iawn ar gyfer chwarae'r tu allan. Felly, mae'n bwysig bod yn greadigol ac yn llawn dychymyg wrth gynllunio a darparu ar gyfer chwarae'r tu allan.

Ym mhob cymuned ceir mannau y gellir cael mynediad iddynt i gefnogi mwy o gyfleoedd i blant chwarae'r tu allan. Gellir defnyddio parciau, rhandiroedd, coedydd a thraethau mewn cymdogaethau i gyd er mwyn helpu i gefnogi cyfleoedd bob dydd gwell ar gyfer chwarae'r tu allan.



## Offer Adran 2

Offeryn 4: Nodweddion amgylchedd chwarae cyfoethog

Offeryn 5: Offeryn hunanasesu – darparu amgylchedd chwarae cyfoethog

Offeryn 6: Plant fel archwilwyr – syniadau ar gyfer archwiliadau

Offeryn 7: Rhestr wirio archwiliad gofod chwarae

Offeryn 8: Offeryn archwilio gofod chwarae

Offeryn 9: Asesiad gwerth chwarae

Offeryn 10: Asesu gwerth chwarae gyda phlant

# Offeryn 4: Nodweddion amgylchedd chwarae cyfoethog

Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn amrywiol a diddorol. Mae'n le ble gall plant:

- chwarae yn eu ffordd eu hunain
- gwneud ystod eang o ddewisiadau
- cael nifer o bosibiliadau i greu a datblygu eu chwarae eu hunain.

Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn cynnig cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd gyda neu brofi'r canlynol:

**Plant eraill** – o wahanol oedran a gallu gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod telerau, cydweithio, dadlau a datrys gwrthdaro.

**Y byd naturiol** – tywydd, coed, planhigion, llwyni, twmpathau, bryniau. Mewn sefyllfaoedd ble mae rhywfaint o fynediad cyfyngedig i natur neu nodwedd naturiol, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau y gall plant ddefnyddio elfennau naturiol ar gyfer eu chwarae.

**Y pedair elfen** – pridd, awyr, tân a dŵr. Mae rhai ffyrdd creadigol i ddarparu profiadau wedi'u goruchwylio ar gyfer plant sydd ddim yn creu pwysau diangen yn cynnwys:

- **pridd** – mae crochenwaith a garddio'n galluogi plant i ddefnyddio pridd. Os oes torlannau pridd, bydd plant yn anochel am balu tyllau ac ogofâu. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n bwysig helpu plant i wneud hynny'n ddiogel
- **awyr** – gall mynediad i awyr ddod ar ffurf hedfan barcutiaid, creu melinau gwynt, gwylio effaith y gwynt ar goed a dŵr
- **tân** – darparu bwcedi tân ar gyfer tanau bychain, coginio dan do a chreu canhwyllau
- **dŵr** – creu cyfleoedd i chwarae'n ddiogel gyda dŵr, fel llithrennau dŵr, pyllau padlo, gemau sblasio a chwrso.

**Rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu. Gallai'r rhain gynnwys hen gynfas gwely ar gyfer cuddfan, ceir bach i greu ffordd yn y mwd neu ddefnyddio elfennau naturiol fel cerrig, blodau, dail, aeron i greu bydoedd bychain, diodydd swyn neu'n syml i greu pentwr neu i ddosbarthu a rhoi trefn ar eitemau.

**Her ac ansicrwydd** – cyfleoedd graddedig ar gyfer cymryd risg, a hynny ar lefel gorfforol ac emosiynol. 'Does dim angen i hyn fod yn weithgaredd llawn risg, gall fod mor syml â gweld plentyn ifanc yn symud ymlaen o neidio oddi ar ris isaf ysgol i'r ail ac yna'r trydydd. Ble fo cyfleoedd i blant gymryd risgiau corfforol byddant, yn gyffredinol, yn chwilio am ffyrdd i wella a chynyddu'r her.

**Chwarae gwyllt** – bydd plant yn dysgu am eu cyfyngiadau corfforol eu hunain, eu cryfder, rheoli dicter a ffiniau trwy chwarae gwyllt. Gall hyn ymddangos ar amrywiol ffurfiau'n cynnwys chwarae ymladd, plismyn a lladron, cwrso a chuddio. Bydd yn amlwg o'r chwerthin, y gwenau a'r mynegiannau eraill ar yr wynebau, mai gêm yw hon a bod y plant yn ei thrin felly.

**Chwarae gyda hunaniaeth** – bydd plant yn chwarae gyda phwy ydyn nhw a sut maent yn edrych. Gallai hyn fod trwy gemau chwarae rôl, fel mam a babi, doctoriaid a nyrsys, milwyr, neu newid sut maent yn edrych gyda mwd ar eu hwynebau, gemau gwisgo i fyny a thynnu ystumiau. Gall drychau, paent wyneb, colur, camerâu a fideo i gyd hwyluso archwilio hunaniaeth.

**Symud** – dylid ystyried tystiolaeth o sut y bydd plant yn symud pan maent yn y gofod. Dylid cael ystod eang o gyfleoedd i symud mewn ffyrdd gwahanol yn y gofod chwarae, er enghraifft rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio, siglo, llithro, dawnsio a chwrso.

**Y synhwyrau** – dylai synau, blasau, gweadau, arogleuon a golygfeydd i gyd gael eu symbylu. Mae cerddoriaeth, bwyd, persawr, lliwiau, golygfeydd a gwahanol weadau'n gwneud hynny. Arsylwch y plant yn symud trwy'r gofod – mae siffrwd y dail, tywod, cyffwrdd â rhisgl coed, teimlo metal oer, rholio ar y glaswellt, chwarae gyda chysgodion i gyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae gyda'r synhwyrau.

# Offeryn 5: Offeryn hunanasesu – darparu amgylchedd chwarae cyfoethog

**Mae'r offeryn hunanasesu yn caniatáu i leoliadau ystyried i ba raddau y mae'n ymateb i nifer o wahanol nodweddion sy'n helpu i ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog.**

- **Mae'r golofn Nodwedd yn amlinellu ystod o griteria i'w hystyried ar gyfer chwarae'r tu allan.**
- **Mae'r golofn Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda yn ein galluogi i dystio cryfderau ein darpariaeth a rhestru tystiolaeth ac enghreifftiau.**
- **Mae'r golofn Yr hyn yr hoffem ei wneud yn well yn ein galluogi i egluro'r meysydd ble nad yw'r gofod chwarae, y cyfleoedd neu'r ddarpariaeth yn cyflawni'r criteria'n llawn.**
- **Dylid defnyddio'r golofn Camau gweithredu i ddangos y camau gweithredu y bwriedir iddynt gywiro diffygion.**

| | |
|---|---|
| Disgrifiwch eich lleoliad, yn cynnwys oedrannau'r plant | |
| Disgrifiwch eich ardal(oedd) awyr agored | |
| Disgrifiwch leoliadau awyr agored eraill a ddefnyddir ar gyfer chwarae'r tu allan | |

| Nodwedd | Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda | Yr hyn yr hoffem ei wneud yn well | Camau gweithredu |
|---|---|---|---|
| Mae gennym weledigaeth gytûn o bwysigrwydd chwarae'r tu allan | | | |
| Mae'r plant yn cael mynediad i'r ardal y tu allan mewn gwahanol dywydd | | | |
| Hebryngir y plant i barc lleol neu fannau eraill o ddiddordeb | | | |
| Mae'r plant yn cael mynediad i'r ardal awyr agored am y rhan fwyaf o'r dydd, trwy gydol y flwyddyn | | | |
| Mae ein hardal awyr agored yn hygyrch i bob plentyn | | | |
| Mae'r ardal awyr agored yn amrywiol a diddorol | | | |

| Nodwedd | Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda | Yr hyn yr hoffem ei wneud yn well | Camau gweithredu |
|---|---|---|---|
| Mae’r ardal awyr agored yn cefnogi rhyngweithio cymdeithasol | | | |
| Mae plant o wahanol oedrannau’n chwarae gyda’i gilydd | | | |
| Mae’r plant yn gallu rhyngweithio gyda’r byd naturiol | | | |
| Mae’r plant yn chwarae gyda rhannau rhydd | | | |
| Mae’r plant yn gallu chwarae gyda’r pedair elfen – pridd, awyr, tân a dŵr | | | |

| Nodwedd | Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda | Yr hyn yr hoffem ei wneud yn well | Camau gweithredu |
|---|---|---|---|
| Mae cyfleoedd i'r plant chwarae gyda hunaniaeth (er enghraifft, chwarae rôl, gwisgo i fyny) | | | |
| Mae cyfleoedd graddedig ar gyfer cymryd risg – corfforol ac emosiynol | | | |
| Mae'r plant yn cael cyfle i chwarae'n fywiog ac i symud o gwmpas | | | |
| Mae'r plant yn cael cyfle i fod yn greadigol | | | |
| Mae'r plant yn cael cyfle i brofi symbyliad synhwyraidd | | | |

# Offeryn 6: Plant fel archwilwyr – syniadau ar gyfer archwiliadau

Bydd plentyn sy'n chwarae'n dehongli gofod yn naturiol ac yn reddfol ac yn gwneud newidiadau iddo, neu'n syml yn symud yn ei flaen oherwydd nad yw'r gofod yn cynnig, neu ei fod wedi peidio cynnig, yr hyn maent ei angen. I'r rheini sy'n gyfrifol am archwilio gofodau chwarae, y ffynhonnell wybodaeth fwyaf dibynadwy fydd y plant. Wrth gynnal archwiliad o ofod chwarae, mae'n bwysig cofio mai gweithgaredd oedolion yw hyn ac nid gweithgaredd plant. Mae'n bwysig peidio tresmasu ar amser y plant, ond os ydyn nhw i deimlo bod y gofod chwarae'n perthyn iddyn nhw, bydd eu cyfranogiad yn fuddiol wrth gefnogi ymdeimlad o berchenogaeth.

Mae rhai plant, yn syml, yn mwynhau cael rôl i'w chwarae. Bydd eu chwilfrydedd naturiol yn achosi iddyn nhw holi beth sy'n cael ei wneud pan fyddant yn gweld oedolion yn cyfrif adnoddau ac efallai y byddant am helpu. Heb orfodaeth a gyda rhywfaint o arweiniad, mae nifer o ffyrdd y gall plant hysbysu archwiliad o'r gofod chwarae.



Gall edrych ar ffotograffau mawr o'r lleoliad gyda'r plant fod yn ffordd dda o edrych ar nodweddion ardal a dechrau deall sut y mae plant yn chwarae ynddi. Gall y plant dynnu lluniau a defnyddio delweddau'n uniongyrchol ar y rhain i egluro beth maent yn ei hoffi am y gofod a'r hyn allai fod yn well.

Mae dulliau eraill sy'n cynnwys plant fel a ganlyn:

- Tynnu lluniau o'r hyn y maent yn hoffi ei wneud
- Tynnu ffotograffau o'r hyn sy'n digwydd yn y gofod chwarae.
- Rhoi camerâu i'r plant i ddogfennu'r ardaloedd chwarae.
- Dod â'r plant ynghyd mewn grwpiau bychain i gerdded trwy'r ardal awyr agored a'i thrafod wrth ichi gerdded trwyddi.
- Talu sylw i'r ffyrdd dieiriau unigryw sydd gan fabanod o fynegi eu hunain. Gall hyn fod trwy synau, ond hefyd trwy symudiadau corfforol: iaith gorfforol fel ymestyn am rywbeth neu amneidio, neu fynegiant yr wyneb fel gwenu.

Mae'n bwysig cofio, fel gydag unrhyw gyfranogiad gan blant mewn archwiliadau, nad ydynt yn teimlo eich bod yn addo rhywbeth na ellir ei gyflawni. Bydd gofyn nifer o gwestiynau i'r plant a'u hannog i gyfranogi'n eu helpu i weld y posibiliadau. Mae hwn yn gam mapio sydd hefyd yn cynnwys dehongli'r gofod a'r hyn sy'n digwydd ynddo er mwyn cefnogi prosesau llunio penderfyniadau.

Os, ar unrhyw adeg yn ystod y broses, y caiff negeseuon cymysglyd eu mynegi ynghylch adnoddau neu ddatblygiad y lleoliad i'r dyfodol, bydd y plant yn colli diddordeb a chaiff eu hymdeimlad o berchenogaeth ei niweidio. Bydd plant ar draws gwahanol gyfnodau dealltwriaeth yn dehongli pethau'n wahanol, felly bydd cadw unrhyw gyfranogiad yn briodol i lefel datblygiad yn helpu i leihau'r perygl o greu camddealltwriaeth.

# Offeryn 7: Rhestr wirio archwilio gofod chwarae

## Dynodi'r potensial i ofod hybu chwarae

Mae archwiliad o ofod chwarae'n offeryn gwerthfawr i'w ddefnyddio wrth ddynodi'r potensial ar gyfer chwarae. Os yw plant yn defnyddio'r gofod ar gyfer chwarae eisoes, bydd tystiolaeth o hyn. Mae Offeryn 8: Offeryn archwilio gofod chwarae wedi ei ddylunio ar gyfer helpu i ddynodi ble mae plant yn chwarae, yr hyn maent yn ei wneud a pha mor aml maent yn defnyddio'r gofod ar gyfer chwarae. Dylid nodi bod arwyddion o esgeulustod fel sbwriel neu ganghennau wedi torri ar goed, mewn gwirionedd, yn aml yn arwyddion o ddefnydd positif gan blant.

Bydd archwiliad gofod chwarae'n helpu mewn ffyrdd eraill hefyd. Yn gyntaf, mae'n ffurfio rhan o'r broses cyfranogi ac ymgysylltu a gall helpu gyda chasglu tystiolaeth i gefnogi'r hyn y mae'r plant yn ei ddweud. Yn ail, o'i gynnal yn rheolaidd (er enghraifft bob chwe mis) gellir ei ddefnyddio i helpu i fonitro sut y mae'r gofod yn cael ei ddefnyddio a pha mor aml.

## Sut i gynnal archwiliad o ofod chwarae

Bwriedir i Offeryn 8: Offeryn archwilio gofod chwarae fod yn adnodd arsylwi. Yn ddelfrydol, dylid cynnal yr archwiliad yn ystod gwahanol adegau o'r dydd er mwyn gweld sut y mae gwahanol grwpiau oedran yn defnyddio'r gofod. Gellir ei ddefnyddio i gynnal archwiliad o'r gofod mewn lleoliad neu yn y gymuned.

Ceir nifer o ymddygiadau chwarae sydd wedi'u disgrifio'n fanylach isod er mwyn helpu gyda'r arsylwad. Bydd ymddygiadau chwarae y gellir eu dynodi heb fod angen gweld plant yn chwarae. Er enghraifft, os bydd plant yn ymgasglu a chwrdd ar gerrig mawr neu ardaloedd eistedd, bydd olion traul traed neu dyllau wedi eu palu gyda blaen esgidiau neu frigau.

Mae gan bob plentyn wahanol anghenion a dymuniadau chwarae all newid dros amser. Nid yw gwahanu plant yn grwpiau oedran a grwpiau eraill, o reidrwydd, o fudd (er efallai y bydd rhai angen cymorth i gyflawni eu hanghenion eu hunain). Mae rhyngweithio rhwng pob grŵp oedran yn broses hanfodol sy'n cefnogi pob plentyn i fanteisio i'r eithaf ar eu chwarae.

## Pethau i gadw llygad amdanynt

**Cerdded, teithio trwy'r gofod** – os oes llwybr yn rhedeg trwy'r gofod mae'n bosibl y bydd plant yn chwarae wrth iddynt symud trwyddo hyd yn oed os nad ydynt yn bwriadu stopio. Gall ymddygiadau gynnwys siglo ar goed, neidio dros bethau, rhedeg i lawr llethr, rhedeg rhydd. Gellir ystyried camau gweithredu sy'n newid y ffordd y mae plant yn teithio trwy'r gofod, fel ailgyfeirio llwybr, gan y gallant annog mwy o gyfleoedd chwarae, neu gyfleoedd gwell.

**Eistedd ac ymgasglu** – hyd yn oed heb ardaloedd eistedd ffurfiol, ceir mannau ble bydd plant yn dewis ymgasglu. Caiff hyn ei dystio gan olion traul ar lawr ger ardaloedd eistedd, o dan fframiau dringo, wrth fôn coed/creigiau neu eitemau gaiff eu cludo i'r gofod. Ble nad oes unrhyw gyfleoedd amlwg ar hyn o bryd ar gyfer ardaloedd eistedd ffurfiol, neu fannau ymgynnull, bydd creu'r rhain yn helpu i wneud gofod yn fan mwy cymdeithasol y gellir ei ddefnyddio gan amrediad o oedrannau – o deuluoedd gyda phlant iau i blant hŷn yn ymgasglu a sgwrsio gyda'u ffrindiau. Dylid gosod mannau i eistedd mewn cylchoedd, neu siapiau U neu L i annog chwarae cymdeithasol – nid yw gosod meinciau mewn rhes yn adlewyrchu sut y bydd pobl yn hoffi ymgasglu a chymdeithasu.

**Defnyddio nodweddion naturiol (er enghraifft goed, llwyni, twmpathau, bryniau)** – ystyriwch ddefnyddio nodweddion naturiol sy'n bodoli eisoes. Gallai mynedfeydd anffurfiol i ardaloedd coediog, ac olion sbwriel neu eitemau sydd wedi eu cludo i'r safle o dan goed/llwyni ddangos gweithgarwch adeiladu cuddfannau neu fannau cyfrinachol. Mae ôl traul ar risgl neu fôn coed a changhennau wedi torri ar goed yn dangos tystiolaeth o blant yn dringo coed.

**Chwarae gyda'r elfennau** – dylid ystyried tystiolaeth o blant yn cael mynediad i ystod eang o elfennau naturiol i chwarae gyda nhw. Mae plant yn rhyfeddu at y byd naturiol a dylent gael cyfle i brofi dŵr, pridd (mwd), tân ac awyr. Dylid ystyried y safle ar gyfer cael mynediad i rai neu bob un o'r rhain. Mae'n bwysig y gellir ymgorffori'r elfennau hyn gan ddefnyddio arddull rheoli risg synhwyrol.



**Defnyddio'r synhwyrau (blas, arogl, golwg, synau, gweadau)** – arsylwi plant yn symud trwy'r gofod. Mae siffrwd y dail, tywod, cyffwrdd â rhisgl coed, teimlo metal oer, rholio ar y glaswellt, chwarae gyda chysgodion i gyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae gyda'r synhwyrau.

**Symud** – talwch sylw i sut y mae plant yn symud pan maen nhw yn y gofod. Dylid cael amrediad o gyfleoedd i symud mewn gwahanol ffyrdd yn y gofod chwarae, er enghraifft rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio, siglo, llithro, dawnsio a chwrso.

**Chwarae gwyllt** – bydd plant yn dysgu am eu cyfyngiadau corfforol eu hunain, eu cryfder, rheoli dicter a ffiniau trwy chwarae gwyllt. Gall hyn ymddangos ar amrywiol ffurf yn cynnwys chwarae ymladd, plismyn a lladron, cwrso a chuddio. Bydd yn amlwg o'r chwerthin, y gwenau a'r mynegiannau eraill ar yr wynebau, mai gêm yw hon a bod y plant yn ei thrin felly.

**Risg a her (corfforol)** – a yw'r plant yn profi lefelau cynyddol o her? 'Does dim angen i hyn fod yn weithgaredd llawn risg, gall fod mor syml â gweld plentyn ifanc yn symud ymlaen o neidio oddi ar ris isaf ysgol i'r ail ac yna'r trydydd. Ble fo cyfleoedd i blant gymryd risgiau corfforol byddant, yn gyffredinol, yn chwilio am ffyrdd i wella a chynyddu'r her.

**Chwarae gyda phrops/rhannau rhydd** – efallai y gwelir tystiolaeth o blant yn dod â phrops i mewn o'r tu allan i gyfoethogi eu chwarae. Gallai'r rhain gynnwys hen gynfas gwely ar gyfer cuddfan, ceir bach i greu ffordd yn y mwd neu ddefnyddio elfennau naturiol fel cerrig, blodau, dail, aeron i greu bydoedd bychain, diodydd swyn neu'n syml i greu pentwr neu i ddosbarthu a rhoi trefn ar eitemau.

**Chwarae gyda hunaniaeth** – bydd plant yn chwarae gyda phwy ydyn nhw a sut maent yn edrych. Gallai hyn fod trwy gemau chwarae rôl, fel mam a babi, doctoriaid a nyrsys, milwyr, neu newid sut maent yn edrych gyda mwd ar eu hwynebau, gemau gwisgo i fyny neu dynnu ystumiau.

<table>
<tr><td>Enw’r lleoliad:</td><td></td><td colspan="2">Arsylwad o’r safle wedi ei gynnal gan:</td></tr>
<tr><td>Arsylwad o’r safle:</td><td>Diwrnod a dyddiad yr arsylwad:</td><td>Amser y cyfnod arsylwi:</td><td>Y tywydd:</td></tr>
<tr><td>Nodweddion allweddol y safle:</td><td colspan="3">Disgrifiad cryno o brif nodweddion yn cynnwys pwyntiau mynediad (fel llethrau, coed, llwyni, gwylfâu, ardaloedd i guddio, pethau i ddringo arnynt a throstynt, mannau eistedd ac ymgasglu, ardaloedd gwastad; yn ogystal ag unrhyw nodweddion offer chwarae gwneuthuredig sydd wedi eu gosod yn eu lle). Nodwch unrhyw ardaloedd penodol o ddefnydd a ddangosir, er enghraifft gan laswellt wedi ei dreulio, canghennau wedi torri. Gellir nodi manylion pellach am y rhain isod mewn unrhyw arsylwadau gweithgarwch a wneir.</td></tr>
<tr><td>Defnydd gan blant ac oedolion (niferoedd):</td><td colspan="2">Brasamcan oedrannau: (dan 1, 1-2, 2-3, 3-4, 4-5, 5+ oed)</td><td>Cyfanswm:</td></tr>
<tr><td>Plant mewn grŵp:</td><td colspan="2"></td><td></td></tr>
<tr><td>Plant ar eu pen eu hunain:</td><td colspan="2"></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Gweithgaredd a arsylwyd gan fod plant yn bresennol:</td><td colspan="2">Os nad ydynt yn bresennol, cofnod o arwyddion bod plant wedi bod yno a defnyddio’r safle:</td></tr>
<tr><td>Cerdded, teithio trwy’r safle:</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Eistedd, ymgasglu:</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Defnyddio nodweddion naturiol (e.e. coed, llwyni, twmpathau, bryniau):</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Chwarae gyda’r elfennau (dŵr, pridd [mwd], tân, awyr):</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Defnyddio’r synhwyrau (blas, arogl, golwg, sŵn, gwead):</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Symud (e.e. rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio):</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Chwarae gwyllt:</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Risg a her (corfforol):</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Chwarae gyda phrops/rhannau rhydd:</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Chwarae gyda hunaniaeth:</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

# Offeryn 9: Asesiad gwerth chwarae

**Defnyddiwch yr offeryn hwn i benderfynu i ba raddau y mae’r lleoliad yn cynnig mynediad i amgylchedd chwarae cyfoethog a pha ffactorau sy’n effeithio arno.**

| Mae’r lleoliad yn darparu cyfle i’r plant brofi | Byth | Weithiau | Yn aml | Fel arfer | Enghreifftiau neu eglurhad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tirwedd awyr agored amrywiol**<br>Er enghraifft: strwythurau, gwahanol uchderau/lefelau, bryniau, twmpathau, llethrau, coed, llwyni, pontydd, tyllau, siglenni, rhedfa uchel, gardd, ffosydd, twneli, gofodau agored a chaeëdig | | | | | |
| **Pridd (ac eira, clai a thywod)**<br>Er enghraifft: tryweli, ffyrch, rhawiau, bwcedi, dysglau, tybiau, rhannau o bibellau/landeri, sled | | | | | |
| **Awyr**<br>Er enghraifft: bagiau plastig, polythen, balwnau, teganau gwynt, peli pridd, weiren wib, pethau i greu barcutiaid, hosanau gwynt, awyrennau, clychau gwynt, fflagiau, baneri, pympiau a chwistrelli, gwyntyll, pibellau, ffatiau, pibau Pan, dijeridws | | | | | |
| **Tân**<br>Er enghraifft: canhwyllau mawr a bach, matsis, tegell drycin, gwlân cotwm, brigau bach a mawr, barbeciw, gefeiliau, hen duniau pobi neu wociau | | | | | |

| Mae’r lleoliad yn darparu cyfle i’r plant brofi | Byth | Weithiau | Yn aml | Fel arfer | Enghreifftiau neu eglurhad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dŵr**<br>Er enghraifft: poteli plastig, jygiau, bwcedi a dysglau, darnau mawr o bolythen/tarpolinau, bomiau dŵr, biniau, rholiau dŵr, pibau a landeri, pibell ddŵr, tryweli, hylif golchi llestri, tybiau, gynnau dŵr | | | | | |
| **Rhannau rhydd**<br>Er enghraifft: rhaffau, tybiau, casgenni, blancedi, briciau, brisblociau, paledi, bocsys, llestri, matiau, cretiau, clustogau, ysgolion, polion, brigau, tâp, pegiau, hen offer trydanol | | | | | |
| **Risg**<br>Er enghraifft: propiau a chyfleoedd i ddringo, balansio, adeiladu, beicio, reslo, neidio, cynnau tân, defnyddio offer | | | | | |
| **Y synhwyrau**<br>Er enghraifft: goleuadau amrywiol – lampau, goleuadau mân, tortshis, canhwyllau, tywyllwch, ffyn arogldarth, coginio a blasu bwyd, perlysiau a sbeisys, blodau a phlanhigion, amrywiaeth eang o gerddoriaeth o bob cwr o’r byd, offerynnau, amrywiaeth o weadau naturiol, lliwiau a delweddau | | | | | |
| **Hunaniaeth**<br>Er enghraifft: hetiau, wigiau, beltiau, colur, paent wyneb, drychau, camerâu, ystod eang o ffabrigau a darnau o ddefnydd o wahanol fathau a meintiau, mygydau, bagiau, tlysau, sbectolau | | | | | |

| Ffactorau sy’n effeithio ar allu’r lleoliad i ddarparu ar gyfer chwarae awyr agored | Ticiwch os yw’n briodol | Enghraifft neu eglurhad cryno |
|---|---|---|
| **Ffactorau mewnol** | | |
| Lleoliad fy narpariaeth | | |
| Ansawdd yr hyfforddiant yr wyf wedi ei dderbyn | | |
| Maint y gofod sydd gennym | | |
| Y math o ofod sydd gennym | | |
| Nifer y staff sydd gennym | | |
| Mae’r ddarpariaeth yn cael ei rhannu | | |
| | | |
| | | |
| **Ffactorau allanol** | | |
| Mae nifer sylweddol o rieni/gofalwyr yn teimlo na ddylai chwarae fod yn aflêr/poitshlyd | | |
| Mae nifer sylweddol o rieni/gofalwyr yn teimlo y dylai plant gael eu cadw’n brysur | | |
| Mae nifer sylweddol o rieni/gofalwyr yn teimlo y dylai plant gael eu cadw dan do’n ystod tywydd gwael | | |
| | | |
| | | |

# Offeryn 10: Asesu gwerth chwarae gyda phlant

| **Lleoliad:** | | |
|---|---|---|
| **Ymatebion cyffredinol gan y plant (hoff bethau, câs bethau, gwichian hapus, ymestyn am rywbeth, pwyntio):** | | |
| **Geiriad ar gyfer rhieni** | **Geiriad ar gyfer plant** | **Sylwadau, lluniau neu farciau'r plant** |
| Mae plant o wahanol oedrannau'n chwarae gyda'i gilydd | Wyt ti'n gallu chwarae gyda phawb yma yr wyt ti am chwarae gyda nhw? | |
| Y byd naturiol | Oes yma bethau naturiol fel mwd, glaswellt tal a llwyni y galli chwarae gyda nhw? | |
| Rhannau rhydd | Oes yma sdwff i greu pethau gyda nhw, fel cynfasau gwely, pegiau, sdwff o'r tŷ? | |
| Y pedair elfen | Alli di/wyt ti eisiau:<br>• neidio mewn pyllau dŵr?<br>• gorwedd yn y glaswellt a gwrando ar y gwynt?<br>• cynhesu ger y tân?<br>• chwarae gyda mwd? | |
| Her ac ansicrwydd | Oes yma bethau sy'n gyffrous neu braidd yn ddychrynllyd/'scary'? | |
| Newid hunaniaeth | Oes yma bethau ar gyfer gwisgo i fyny? | |
| Symud | Alli di:<br>• redeg<br>• neidio<br>• bownsio<br>• balansio<br>• sgipio… | |
| Y synhwyrau | Dweda wrtha' i am y pethau i'w:<br>• cyffwrdd<br>• arogli<br>• blasu<br>• gwneud synau gyda nhw<br>• gwrando arnyn nhw | |

# Adran 3 – Hwyluso chwarae'r tu allan

**Mae cyfleoedd i blant chwarae'r tu allan ac archwilio eu hamgylchedd naturiol, yn gyffredinol, wedi tyfu'n fwy cyfyngedig mewn cymunedau lleol. Gall lleoliadau blynyddoedd cynnar fynd i'r afael â hyn trwy sicrhau bod gan blant fynediad i amrediad o gyfleoedd i chwarae a phrofi'r awyr agored bob dydd, ym mhob tywydd.**

Mae ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn gweithio mewn byd ble mae chwarae'n gallu cymryd blaenoriaeth. Mae sicrhau bod yr amgylchedd a'r awyrgylch yn cyflawni anghenion plant a'u hawl i chwarae yn allweddol. Y ffyrdd gorau o gefnogi hawl plant i chwarae yw i:

- fwynhau chwarae am ei hun
- chwarae'n llawn brwdfrydedd pan dderbyniwn wahoddiad i chwarae
- bod yn eiriolwyr brwdfrydig dros chwarae.

Mae cyfleoedd plant i chwarae ym mhob lleoliad – yn cynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar – yn dibynnu ar ystod eang o amodau. Gellir ystyried y rhain fel rhan o dair thema ehangach:

- **Caniatâd:** ofn, disgwyliadau, goddefgarwch, a'r modd y mae oedolion yn ystyried plentyndod a chwarae
- **Lle:** cyfanswm, dyluniad a rheolaeth gofod chwarae
- **Amser:** sut caiff amser ei strwythuro a'r galwadau ar amser plant.



## Offer Adran 3

Offeryn 11: Datblygu canllawiau ar gyfer amser chwarae yn ystod tywydd garw

Offeryn 12: Templed – gwybodaeth i rieni

Offeryn 13: Arddulliau ymyrryd

Offeryn 14: Mathau chwarae

Offeryn 15: Rhannau rhydd

Offeryn 16: Arsylwi chwarae plant

Offeryn 17: Templed – polisi rheoli risg

Offeryn 18: Templed – asesu risg-budd

# Offeryn 11: Datblygu canllawiau ar gyfer chwarae awyr agored yn ystod tywydd garw



**Mae'n bwysig mabwysiadu agwedd synnwyr cyffredin tuag at ddelio gyda thywydd garw. Gall tywydd sy'n golygu y bydd plant yn wynebu amodau eithafol fod yn niweidiol i iechyd a lles, ond gall tywydd arferol gyfoethogi profiadau plant.**

**Mae'n ddefnyddiol i leoliadau ystyried a hybu'r tywydd mewn modd cadarnhaol, yn hytrach nag fel rhwystr. Bydd plant, yn gyffredinol, yn mwynhau bod y tu allan ym mhob math o dywydd a thymhorau.**

Gall canllawiau tywydd gwmpasu'r sefyllfaoedd canlynol [darparwch fanylion ar gyfer pob sefyllfa]:

- Amodau tywydd poeth
- Amodau tywydd oer
- Amodau tywydd eithafol.

Pan fydd amodau'n golygu bod rhaid i chwarae ddigwydd dan do'n unig, mae'r canlynol yn berthnasol: [nodwch y gofodau dan do a ddefnyddir a sut y'i defnyddir].

Bydd canllawiau tywydd yn cael eu rhannu gyda'r staff, y plant, a'r rhieni yn y ffordd ganlynol: [disgrifiwch sut y rhennir y canllawiau].

## Pethau i'w hystyried:

1. Penderfynwch ar aelod enwebedig o'r staff neu sefydlwch grŵp fydd yn dynodi sefyllfaoedd fyddai'n gofyn i chwarae ddigwydd gyda mynediad cyfyngedig i'r awyr agored neu dan do'n unig.
2. Gweithiwch gyda'r staff i ddynodi a chytuno ar amodau tywydd eithafol fyddai'n gofyn i chwarae ddigwydd dan do'n unig (gallai hyn gynnwys taranau, mellt, gwyntoedd cryfion, gwres neu oerfel eithafol neu ansawdd aer gwael). Gallai materion sydd ddim yn ymwneud â'r tywydd, megis prosiectau adeiladu neu faterion diogelwch, ddylanwadu ar benderfyniad hefyd.
3. Pan wneir penderfyniad i ganiatáu mynediad cyfyngedig i'r awyr agored oherwydd amodau tywydd derbyniol, cofiwch ystyried y canlynol:
    - Beth yw'r ardaloedd awyr agored dynodedig yn eich lleoliad yn ystod tywydd garw derbyniol?
    - A yw'r plant a'r staff i gyd yn gwybod am y gofodau hyn?
    - Pa loches sydd ar gael ar gyfer y plant?

# Offeryn 12: Templed – gwybodaeth i rieni

**Bydd ymgysylltu gyda'r rhieni'n eu helpu i ddeall ymrwymiad y lleoliad i chwarae'r tu allan a pham ei fod yn cael ei hybu. Bydd darparu gwybodaeth am eich cynlluniau a'ch trefniadau'n helpu i ateb unrhyw ymholiadau allai fod gan rieni. Mae hefyd yn helpu i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae y tu hwnt i'r lleoliad.**

Rydym yn gwneud yn siŵr bod mwy o gyfleoedd i blant chwarae'r tu allan bob dydd. Mae chwarae'r tu allan yn bwysig i blant. Mae chwarae'r tu allan:

- yn rhoi lle i blant redeg, dringo, rholio, neidio, cuddio a defnyddio eu hegni
- yn golygu y gall plant chwarae gyda phethau naturiol fel dŵr, tywod, mwd, glaswellt, rhisgl a brigau
- yn hwyl i blant ac mae'n caniatáu iddynt ddarganfod y byd naturiol, er enghraifft gweld pa greaduriaid sy'n dod allan mewn gwahanol dywydd
- yn helpu plant i ddysgu am y tymhorau a'n hystod amrywiol o dywydd trwy eu profi
- yn cefnogi plant i ddysgu ynghylch gofalu am eu hunain, er enghraifft bod yn ymwybodol pa mor llithrig yw rhew neu iâ, a bod angen yfed dŵr a gwisgo het pan mae'n heulog
- yn helpu i ddatblygu synhwyrau plant – golwg, clyw, arogl, cyffyrddiad a blas
- yn llai annifyr a llawn straen i oedolion os yw plant yn swnllyd y tu allan, yn hytrach na'r tu mewn.

Mae ein lleoliad yn gwybod bod chwarae'r tu allan yn dda i blant a byddwn yn ei annog trwy gydol y flwyddyn heblaw am yn ystod tywydd garw iawn. Caiff y penderfyniad ynghylch chwarae'r tu allan ei wneud gan aelod o'r tîm arweinyddol sy'n gyfrifol am y lleoliad ar y diwrnod. Rydym wedi datblygu canllawiau tywydd garw y bydd y staff yn eu defnyddio i wneud y penderfyniad ynghylch pryd all plant a staff fynd allan i chwarae.

[Nodwch eich gwybodaeth am lochesi awyr agored a threfniadau eraill. Efallai yr hoffech hefyd hysbysu'r rhieni os oes trefniadau yn eu lle fel bod dewis ar gael i blant sydd am aros y tu mewn]

Cofiwch sicrhau bod eich plant wedi gwisgo ar gyfer y tywydd fel y gallant ymuno'n llawn – er enghraifft efallai y byddant angen esgidiau glaw, cotiau glaw a menig neu eli haul a hetiau haul, yn dibynnu ar y tywydd.

Rydym yn gobeithio creu casgliad o welingtons a chotiau glaw. Allech chi gyfrannu unrhyw beth y mae eich plant wedi tyfu allan ohonyn nhw?



# Offeryn 13: Arddulliau ymyrryd

Fel oedolion, mae'n gallu bod yn anodd deall a gwneud synnwyr o ymddygiad chwarae plant ond mae'n bwysig inni gofio mai chwarae'n rhydd yw ffordd plant o ddysgu am eu hamgylchedd.

Mae oedolion yn effeithio'n sylweddol ar chwarae plant, trwy:

- siapio profiad plant o chwarae (yn gadarnhaol ac yn negyddol)
- rheoleiddio amser ar gyfer cyfleoedd chwarae
- effeithio ar sut ac os yw gofod yn agored i'w ddefnyddio
- darparu (neu wrthod) deunyddiau.

Bydd oedolion yn ymyrryd yn chwarae plant mewn amrywiol ffyrdd all helpu neu atal y cyfle i chwarae. Mae'n ddefnyddiol gallu adnabod enghreifftiau o'r rhain er mwyn ein helpu i ystyried sut y gallem gefnogi chwarae i ddigwydd.

Er mwyn arddangos agwedd gefnogol tuag at chwarae'r tu allan, dylem sicrhau nad ydym:

- yn ei ddiystyried fel elfen wamal a gwastraff amser
- yn anfwriadol ddifrwdfrydedd
- yn ei or-reoleiddio a'i or-drefnu
- yn ei gyfyngu'n ddiangen trwy ofn
- ond yn defnyddio chwarae fel cyfrwng ar gyfer deilliannau dysg, addysgol neu iechyd sydd angen eu cyflawni.



Gellir cadarnhau agwedd oddefol trwy ddewis arddull ymyrryd sy'n galluogi plant i ymestyn eu chwarae.

## Enghreifftiau o arddulliau ymyrryd

### Aros i gael fy ngwahodd i chwarae

Mae ymarferwyr yn sensitif ac yn gofalu rhag cymryd trosodd.

### Galluogi i chwarae ddigwydd yn ddi-dor

Dylai ymarferwyr geisio peidio trefnu gormod neu darfu ar lif y chwarae.

### Gadael i'r plant ddatblygu sgiliau ar eu tempo eu hunain

Mae chwarae'n fecanwaith sy'n galluogi plant i ddatblygu eu sgiliau, eu doniau a'u barn eu hunain. Dylid cefnogi plant i reoli eu chwarae ar eu tempo eu hunain a thrwy brofi a methu.

### Gadael cynnwys a bwriad y chwarae i'r plant

Mae chwarae'n rhan annatod o brofiad plentyn o'r byd. O fewn terfynau diogel, mae sut y caiff hyn ei wneud yn fater i'r plant – ei agenda nhw yw hon.

### Gadael i'r plant benderfynu pam eu bod yn chwarae

Mae chwarae'n ymddygiad sydd heb wobr neu nod benodol. Mae'n broses a arweinir gan y plentyn ble nad oes angen gwobr neu anogaeth.

### Dim ond trefnu pan mae'r plant eisiau imi drefnu

O dro i dro, mae'n bosibl y bydd y plant yn methu meddwl am syniadau neu am roi tro ar rywbeth newydd. Weithiau, byddant yn gofyn am syniadau, am help i wneud rhywbeth, neu am adnoddau y maent eu hangen.

# Offeryn 14: Mathau chwarae

Gall chwarae ymddangos ar amrywiol ffurfiau. Gall fod yn swnllyd, yn ddryslyd ac yn gymdeithasol tra gall hefyd fod yn dawel, yn llawn ffocws ac yn unig. Oherwydd ei fod mor amrywiol, mae llawer wedi ceisio categoreiddio ymddygiad chwarae yn wahanol fathau. Mae'r arbenigwr chwarae Bob Hughes wedi dynodi 16 math o chwarae y gellir eu harsylwi pan fydd plant yn chwarae, y mae rhai ohonynt wedi eu rhestru isod. Am fwy o wybodaeth darllenwch ein taflen wybodaeth *Mathau chwarae*.

Gall categoreiddio mathau chwarae fod yn ddefnyddiol pan ydym yn darparu cyfleoedd i blant chwarae, ond nid yw'r rhain yn gwbl sefydlog – mae mwy y gellir eu rhestru. Mae'r amrywiol fathau chwarae'n anelu i ddisgrifio'r amrediad llawn o ymddygiadau chwarae plant a sut y gallent gyfrannu at ddatblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol plant.

Trwy arsylwi chwarae plant a myfyrio ar y mathau o chwarae yr ydym yn eu gweld, gallwn ennill gwell dealltwriaeth am anghenion a hoff ddewisiadau chwarae plant. Er nad yw'r plant, efallai, yn arddangos yr holl fathau chwarae, os yw'r plant yn ymddangos fel pa baent ond yn chwarae mewn ffyrdd sy'n arddangos grŵp bychan o fathau chwarae, gallai hyn rybuddio ymarferwyr i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i blant. Er enghraifft, os yw'n amlwg bod chwarae gwyllt a chwarae ymsymudol yn tra-arglwyddiaethu, efallai y byddai'r plant yn elwa o gael cyfle i gymryd rhan mewn chwarae creadigol, chwarae dychmygol a chwarae gwrthrych.

| | |
|---|---|
| **Chwarae Cyfathrebu**<br>Er enghraifft: caneuon, meim, jôcs, mynegiant yr wyneb (yr wyneb chwarae), gemau clapio, amneidiau a barddoniaeth. | **Chwarae Ymsymudol**<br>Er enghraifft: cwrso, tic, rhedeg, chwarae cuddio, dringo coed. |
| **Chwarae Creadigol**<br>Er enghraifft: ble mae gan blant fynediad i lawer o wahanol gyfryngau ac offer creadigol, ble mae digon o amser a ble nad yw creu llanast yn broblem. | **Chwarae Gwrthrych**<br>Er enghraifft: archwilio gwrthrych a'i ddefnyddio mewn modd dyfeisgar, fel pêl, pennau ysgrifennu, darn o ffabrig, ac anifeiliaid byw neu farw hyd yn oed. |
| **Chwarae Dramatig**<br>Er enghraifft: dramateiddio rhieni'n mynd â'r plant i'r ysgol, sioe deledu, sgwrs rhwng dau berson, digwyddiad crefyddol neu ddathliad, neu angladd. | **Chwarae Gwyllt**<br>Er enghraifft: chwarae ymladd, reslo a chwrso, ble mae'r plant sy'n rhan ohono'n chwerthin a gwichian ac, o'r mynegiant ar eu hwynebau, yn amlwg yn mwynhau eu hunain. |
| **Chwarae Dychmygol**<br>Er enghraifft: anwesu ci sydd ddim yno, bwyta bwyd sydd ddim yn bodoli, neu ganu i mewn i feicroffon nad yw'n bod. | **Chwarae Cymdeithasol**<br>Er enghraifft: adeiladu neu baentio rhywbeth gyda'i gilydd, symud/cario rhywbeth gyda'i gilydd, gemau timau anffurfiol neu gemau parasiwt. |
| **Chwarae Symbolaidd**<br>Er enghraifft: defnyddio gwrthrych fel darn o bren i symboleiddio person neu faner i symboleiddio grŵp neu lwyth. | **Chwarae meistrolaeth**<br>Er enghraifft: codi argae ar draws nant, palu tyllau a chreu twmpathau mewn pridd a thywod. |

# Offeryn 15: Rhannau rhydd



Gellir darparu neu gael hyd i adnoddau er mwyn hwyluso ac annog chwarae. Mae adnoddau fel tywod, dŵr, cregyn, ffabrig, bwcedi, bocsys, rhaffau, teiars, poteli, sosbenni, llwyau pren, pren a deunyddiau sgrap o bob math wedi dod i gael eu hadnabod fel 'rhannau rhydd'. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw beth y gellir ei symud o gwmpas, ei gario, ei rolio, ei godi, ei drin a'i drafod neu eu cyfuno i greu strwythurau a phrofiadau diddorol.

Mae rhannau rhydd yn creu amgylcheddau cyfoethocach i blant chwarae, gan roi iddynt yr adnoddau y maent eu hangen i ymestyn eu chwarae. 'Dyw rhannau rhydd ddim yn gyfarwyddol ac maent yn cynnig posibiliadau diddiwedd. Gall brigyn, er enghraifft, droi'n wialen bysgota ger dŵr real neu ddychmygol, yn llwy mewn cegin fwd, yn offeryn ar gyfer rhoi pwt i bêl-droed sy'n sownd mewn coeden – gellir ei daflu, ei arnofio, ei dorri yn ei hanner, ei 'bingio', ei blygu, ei guddio, ei ychwanegu at bentwr, ei losgi, ei glymu'n sownd i rywbeth arall, ei hollti, ei gatapwltio neu ei waredu.

Fydd mannau chwarae sefydlog, digyfnewid yn gwneud fawr ddim i blant, tra bydd amgylcheddau y gellir eu trin a'u trafod, ble mae pethau'n symud a ble gellir eu symud yn agor bydoedd yn llawn posibiliadau.

Ar y traeth, er enghraifft, mae digonedd o ddŵr, tywod, cerrig, creigiau, arogleuon, pethau i'w gweld, golygfeydd a gweadau sy'n galluogi plant i fod yn hynod ddyfeisgar a chreadigol yn eu chwarae. Yn aml, bydd amgylcheddau naturiol fel coedydd aeddfed neu draethau'n darparu llawer mwy o rannau rhydd gyda lefelau uwch o bosibiliadau na llawer o fannau chwarae artiffisial fel iard chwarae asffalt mewn ysgol neu barc trefol.

Fydd plant sy'n chwarae'r tu allan neu mewn gofodau dan do mawr gydag eraill ddim angen llawer o deganau. Trwy ddarparu efallai dim ond ychydig o deganau sydd wedi'u dewis yn ddoeth ond nifer fawr o rannau rhydd, gallwn gyfoethogi'r gofod chwarae a hwyluso chwarae. Mae'r rhestr o rannau rhydd posibl yn ddiddiwedd ond gall gynnwys:

- adnoddau naturiol – fel gwellt, mwd a moch coed
- deunyddiau ac offer adeiladu – planciau, hoelion a morthwylion
- deunyddiau sgrap – hen deiars a darnau o landeri
- rhisgl, sy'n gallu bod yn arwyneb maes chwarae diogel yn ogystal â rhan rhydd
- ac, yn fwyaf hanfodol, gwrthrychau hapgael amrywiol.

# Offeryn 16: Arsylwi chwarae plant

**Gall arsylwi plant sy'n chwarae ein cynorthwyo i feddwl am sut a pham y mae plant yn chwarae a'r pethau y gallwn eu gwneud i ymateb i'w anghenion chwarae. Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau hyn i lunio casgliadau am chwarae ac i ddynodi camau gweithredu y gallwch eu cymryd i ddiogelu neu ddatblygu cyfleoedd i chwarae. Mae'r ffurflen hon yn darparu fformat i'w ddefnyddio, er y gellir cofnodi arsylwadau hefyd trwy ddefnyddio recordydd, dyddiadur myfyriol neu ddull arall.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad:** | | **Amser:** | |
| **Nifer y plant:** | | **Hyd:** | |
| **Oedrannau'r plant:** | | **Y tywydd:** | |
| **Gofod – ym mha fath o ofodau mae'r plant yn chwarae?** | | | |
| | | | |
| **Adnoddau – gyda beth mae'r plant yn chwarae? A oes digon o bethau i chwarae gyda nhw?** | | | |
| | | | |
| **Ymddygiad chwarae – sut mae'r plant yn chwarae? Sut mae hyn yn gwneud inni deimlo?** | | | |
| | | | |
| **Staff eraill – sut maen nhw'n ymateb i chwarae'r plant? Ydyn nhw'n helpu'r plant i chwarae neu'n eu hatal rhag chwarae?** | | | |
| | | | |
| **Her ac ansicrwydd – yw'r plant yn rheoli risgiau drostynt eu hunain? A oes peryglon sydd angen eu rheoli?** | | | |
| | | | |
| **Mathau chwarae – yw'r plant yn arddangos ystod eang o fathau chwarae?** | | | |
| | | | |
| **Beth yw eich myfyrdodau cyntaf ar yr hyn sy'n digwydd?** | | | |
| | | | |

## Cynllunio gweithredu

O ganlyniad i'r arsylwad, pa gamau ellir eu cymryd i ddiogelu neu ddatblygu cyfleoedd i chwarae?

| Camau gweithredu i warchod cyfleoedd i chwarae'r tu allan | Pwy sydd angen bod yn rhan o hyn? |
|---|---|
| | |
| **Camau gweithredu i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer chwarae'r tu allan** | **Pwy sydd angen bod yn rhan o hyn?** |
| | |

# Offeryn 17: Templed – polisi rheoli risg

**Fel rhan o gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag archwilio a chynnal a chadw'r man chwarae, mae angen cynnal asesiadau risg-budd gweithredol yn rheolaidd. Mae'n debyg y bydd hyn yn un o amodau'r yswiriant.**

**Mae hwn yn dempled polisi rheoli risg y gellir ei addasu i ateb anghenion y lleoliad. Mae'r polisi'n amlinellu'r arddull risg-budd tuag at reoli risg ac mae'n caniatáu ar gyfer cynnwys gweithdrefnau'r lleoliad, amlder archwiliadau a rhaglen gynnal a chadw rheolaidd. Mae meddu ar bolisi rheoli risg yn mynd y tu hwnt i'r gofynion ar gyfer cynnal asesiad risg, i roi fframwaith cadarn ar gyfer sut fydd sefydliadau'n rheoli risg dros amser a defnyddio'r wybodaeth a enillir i ddiweddaru a gwella asesiadau risg gweithredol (ar bapur).**

## Polisi rheoli risg

Mae'r polisi hwn wedi ei ddatblygu i ddarparu arddull cydlynol, cyson a chytbwys tuag at reoli risg yn [enw'r lleoliad/sefydliad] er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth ynghylch y mater hwn.

Mae'r polisi'n anelu i herio rhywfaint ar natur ofn risg ein cymdeithas ar hyn o bryd sy'n gallu cyfyngu ar brofiadau chwarae plant. Cefnogir y polisi gan y Datganiad Lefel Uchel a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'r Datganiad Lefel Uchel – *Chwarae a Hamdden Plant: hyrwyddo agwedd gytbwys* – yn ei gwneud yn gwbl glir:

- bod chwarae'n bwysig ar gyfer lles a datblygiad plant
- tra'n cynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, y nod fydd nid dileu risg, ond pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau
- y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli gwir risgiau, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid ar y gwaith papur
- y bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.

## Systemau rheoli risg

Defnyddir rheoli risg yn y polisi hwn i gyfeirio at bob elfen sydd ynghlwm â rheoli risg sy'n gallu, ac a ddylai, gynnwys llawer mwy nag asesiadau risg ar bapur yn unig. Ble fo'r holl elfennau hyn wedi eu cefnogi'n briodol, mae potensial i ddatblygu systemau rheoli risg mwy cadarn sydd wedi'u hysbysu'n well.

## Darparu ar gyfer risg a her

Mae [enw'r lleoliad/sefydliad] yn cydnabod bod plentyndod yn llawn profiadau newydd sydd, o reidrwydd, yn cynnwys rhyw elfen o fentro a risg, boed hynny'n gorfforol neu'n emosiynol. Mae plentyndod yn broses barhaus o brofi a methu gyda'r potensial ar gyfer llwyddo, ond hefyd natur anochel damweiniau. Fyddai plant fyth yn dysgu sut i gerdded, dringo grisiau neu fynd ar gefn beic oni bai eu bod wedi eu hysgogi'n gryf i ymateb i heriau sy'n cynnwys risg cael anaf.

Mae gennym ddyletswydd i ofalu i geisio gwarchod plant a staff rhag effeithiau niweidiol tymor hir, posibl, wynebu niwed corfforol ac emosiynol difrifol ac afresymol. Fodd bynnag, wrth wneud hyn mae rhaid inni beidio anwybyddu, neu geisio hyn ar draul galluogi plant i gyfranogi'n weithredol hefyd yn eu datblygiad personol eu hunain o iechyd, lles a gwytnwch, o ganlyniad i gyfranogi mewn sefyllfaoedd sydd â chanlyniadau ansicr.

## Asesu risg-budd

Bydd penderfyniadau ynghylch beth sy'n rhesymol a buddioldeb cyfranogiad a chyfraniad plant yn cael eu gwneud gan ddefnyddio dull risg-budd. Mae'r broses hon yn cynnwys ystyried y buddiannau posibl a gynigir gan gyfle ynghyd ag unrhyw ganlyniadau negyddol posibl ac yna ffurfio barn os yw'r potensial o gael anaf yn gymesur â'r buddiannau. Hynny yw, a yw'r buddiannau posibl yn cyfiawnhau caniatáu i'r risg o niwed barhau?

At ddiben asesiadau risg-budd, gall buddiannau fod yn gorfforol, emosiynol, cymdeithasol neu amgylcheddol (ac maent yn debygol o fod yn gyfuniad o'r rhain i gyd). Gellir dynodi risg cael anaf trwy ystyried y tebygolrwydd y bydd unrhyw anaf posibl yn digwydd ynghyd â difrifoldeb posibl yr anaf hwnnw.

## Rheoliadau rhesymol

Yn ystod y broses risg-budd efallai y bydd angen dynodi mesurau rheoli i leihau'r perygl o anafiadau i lefel derbyniol. Fodd bynnag, bydd y mesurau rheoli rhesymol y gellir eu rhoi mewn grym yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Bydd rhaid i gost unrhyw fesurau rheoli posibl gael eu cyfiawnhau trwy fod yn gymesur â'r perygl
o anaf dan sylw.

Cyn rhoi mesurau rheoli mewn grym, dylid ystyried hefyd unrhyw effeithiau negyddol posibl allai godi o ganlyniad
i wneud yr ymyriad hwnnw. Er enghraifft, mae'n bwysig nad yw angen plant i ddefnyddio eu hamgylchedd mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl yn cael ei gyfyngu yn yr ymdrech i ddarparu amddiffyniad absoliwt rhag anafiadau.

Pwyntiau allweddol:

- Mae gwerth cynhenid i blant brofi ansicrwydd a her bersonol trwy chwarae.
- Mae angen i blant deimlo'n rhydd i brofi risg a her o'u dewis eu hunain. Fyddan nhw ond yn gallu gwneud hyn os byddwn yn caniatáu i ryw elfen o ansicrwydd fodoli.
- Mae'r cyfleoedd chwarae yr ydym yn eu creu'n anelu i gefnogi plant i brofi lefelau rhesymol o risg drostynt eu hunain.
- Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng sicrhau lefelau priodol o warchodaeth a chynnal lefelau rhesymol o ansicrwydd.
- Rydym yn anelu i reoli risg fel bod, ble bynnag mae'n rhesymol bosibl, y risg o anaf y bydd plant yn ei wynebu'n gymesur â'r buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.
- Bydd rheoliadau'n rhesymol ac yn realistig tra'n sicrhau bod risgiau diangen yn cael eu lleihau.
- Mae rheoli risg yn cynnwys nifer o wahanol elfennau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ffurfio cylchdro parhaus, gan wella ein hymarfer.
- Gall plant reoli rhai risgiau drostynt eu hunain a bydd eu meistrolaeth yn datblygu wrth i'w profiad gynyddu.

# Offeryn 18: Templed – asesu risg-budd

**Mae'r templed asesu risg-budd hwn wedi ei ddylunio i gynnwys asesiad risg-budd seiliedig ar werthoedd fel y disgrifir yn y canllaw *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).**

| **Lleoliad:** | | | | **Dyddiad:** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd gan:** | | | | **Dyddiad ei adolygu:** | | | |
| **Ardal/disgrifiad:** | Adeiladu cuddfannau | | | | | | |
| **Buddiannau** | **Risgiau** | **Nodweddion lleol perthnasol** | **Beth ydych chi'n ei wneud eisoes** | **Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen** | **I'w weithredu gan bwy** | **I'w weithredu erbyn pryd** | **Dyddiad cwblhau'r cam gweithredu** |
| Pleser a hwyl.<br>Cyfleoedd am chwarae corfforol a datrys problemau.<br>Archwilio'r amgylchedd.<br>Adeiladu tîm.<br>Datblygu hunanhyder a lles.<br>Cydsymud.<br>Cyflawni canlyniad terfynol.<br>Cynhwysiant cymdeithasol.<br>Ymgysylltiad gyda'r amgylchedd naturiol a'r elfennau naturiol.<br>Potensial ar gyfer ei gynnwys mewn gemau dychmygol.<br>Cymysgu rhwng gwahanol grwpiau oedran. | Archollion, crafiadau, cleisiau o ganlyniad i adeiladu a thrin a thrafod deunyddiau.<br><br>Archollion, cleisiau, torri esgyrn o ganlyniad i wrthrychau'n cwympo/chwalu. | Dim ond cyllideb fechan sydd ar gael ar gyfer cynyddu'r cynnig chwarae ar y safle hwn.<br><br>Ehangu ar y profiad o chwarae dychmygol.<br>Tai lleol a ffordd gerllaw er mwyn galw am help. | Darparu deunyddiau ysgafn | | | | |

# Adran 4 – Cefnogi staff

**Rydym yn gwneud ein gwaith yn dda pan fyddwn yn teimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi, yn gwybod beth ydym i fod yn ei wneud, yn gallu dysgu oddi wrth unrhyw gamgymeriadau a derbyn canmoliaeth pan fyddwn yn gwneud pethau'n dda. Mae ymsefydlu, goruchwylio a chefnogi staff, a'u mentora'n caniatáu rhoi ffocws ar les staff, yn ogystal â darparu datblygiad proffesiynol a phersonol.**



Mae proses ymsefydlu drylwyr yn croesawu pobl newydd yn gyflym ac yn effeithlon ac yn darparu amgylchedd cadarnhaol a chefnogol. Mae nifer o leoliadau'n defnyddio rhestr wirio cyfnod ymsefydlu ysgrifenedig ac amserlen er mwyn sicrhau bod pob maes yn cael ei gwmpasu.

Unwaith bod gweithdrefnau a pholisïau sefydliadol hanfodol wedi eu rhannu a'u deall gan y staff, gellir defnyddio'r cyfnod ymsefydlu i ddynodi dysg a sgiliau staff i ddeall eu rôl wrth gefnogi chwarae plant.

## Rhestr wirio ar gyfer cyfnod ymsefydlu chwarae-penodol

Mae mabwysiadu arddull sy'n gosod y plentyn yn y canol yn darparu fframwaith defnyddiol inni ystyried sut y gallem ddefnyddio'r broses ymsefydlu i atgyfnerthu sut y byddwn yn darparu mynediad i'r plant i'r ystod ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae. Dylai cyfnod ymsefydlu chwarae-penodol gynnwys:

- cyflwyno ac atgyfnerthu materion hawliau plant
- egwyddorion a gwerthoedd sy'n hanfodol ar gyfer gweithio gyda phlant
- iechyd, diogelwch a sicrwydd
- gwrando ar a chyfathrebu gyda phlant a theuluoedd
- deall datblygiad ac ymddygiad
- cadw plant yn ddiogel rhag niwed
- agwedd gytbwys, synnwyr cyffredin tuag at reoli risg a her.

## Offer Adran 4

Offeryn 19: Sesiwn hyfforddi: chwarae'r tu allan

Offeryn 20: Cwestiynau i gefnogi ymarfer myfyriol

Offeryn 21: Rhestr ddarllen – darnau byr gyda chwestiynau myfyriol

Offeryn 22: Fideos gyda chwestiynau myfyriol

# Offeryn 19: Sesiwn hyfforddi – chwarae'r tu allan

**Mae'r sesiwn hyfforddi fer hon wedi ei dylunio i gael ei throsglwyddo yn eich lleoliad gan aelod profiadol o'r tîm neu'r rhwydwaith blynyddoedd cynnar.**

Darperir nifer o dechnegau hyfforddi cyfranogol fydd yn helpu ymarferwyr i feddwl mewn ffyrdd ymarferol am bwysigrwydd chwarae'r tu allan a sut i'w hwyluso.



## Awgrymiadau ar gyfer hwyluswyr:

- Byddai'r gweithgareddau hyn yn gweithio'n dda mewn sesiynau hyfforddi ar gyfer lleiafswm o bump o gyfranogwyr a mwyafswm o tua 30.
- Gyda grŵp mwy o faint, efallai yr hoffech gael ail hwylusydd.

Bydd hyd yr amser a neilltuir ar gyfer y gweithgareddau'n amrywio'n dibynnu ar faint y grŵp:

- Gallwch weithio trwy'r gweithgareddau dros nifer o sesiynau neu ddewis a dethol y rhai sy'n ymddangos yn fwyaf perthnasol. Fodd bynnag, byddem yn argymell defnyddio gweithgareddau i gyfannu ei gilydd a darparu lefel sylfaenol gyffredin o ddealltwriaeth.
- Defnyddiwch yr amrywiol offerynnau y cyfeirir atynt yma fel taflenni i'w rhannu i'r cyfranogwyr fynd â nhw adref.
- Gwnewch y gweithgareddau hyn yn hwyl yn eich ffordd eich hun, er enghraifft, gyda chloch fawr ar gyfer gweithgareddau gaiff eu hamseru, cyflwyno elfennau o gystadleuaeth chwareus, paratoi cymhorthion gweledol lliwgar, cyflwyno eich personoliaeth eich hun i'ch arddull hwyluso.
- Addaswch y gweithgareddau fel bo angen gan ddefnyddio eich gwybodaeth am y cyfranogwyr.
- Ceisiwch addasu'r gweithgareddau i lefel y cyfranogwyr.

## Meddwl am chwarae’r tu allan

Nod y sesiwn yw cefnogi ymarferwyr i ystyried a chynllunio ar gyfer chwarae’r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd chwarae.

Mae’r deilliannau yn cynnwys:

- ymarferwyr yn teimlo’n abl ac wedi eu cefnogi i ddarparu cyfleoedd i blant chwarae’r tu allan
- ymarferwyr yn deall eu rôl wrth hwyluso chwarae’r tu allan.

| Amser | Disgrifiad a gweithgaredd | Gweithgaredd | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| 30 - 45 munud | Rhwystrau i chwarae’r tu allan:<br>• I gynyddu dealltwriaeth o’r cyd-destun ble bydd plant yn chwarae, yn enwedig y tu allan<br>• I ddynodi ffyrdd o ganfod datrysiadau. | Gofynnwch i’r grŵp feddwl am y pethau allai atal neu darfu ar blant yn chwarae’r tu allan yn y lleoliad.<br><br>Cofnodwch y syniadau ar ddarnau unigol o bapur a’u pegio ar ‘lein olchi’ neu eu gosod yn rhes ar fwrdd hir.<br><br>Unwaith bod gennych 10 i 15 o awgrymiadau, grwpiwch yr un materion gyda’i gilydd. Dewiswch un mater a thrafod yr hyn ellid ei wneud i leihau neu ddileu’r rhwystrau (gellir gwneud hyn mewn grwpiau bychan neu mewn un grŵp mawr).<br><br>Hwyluswch dderbyn adborth oddi wrth y grŵp.<br><br>Pwyntiau i’w hystyried:<br>• A oes rhai plant sy’n cael eu heffeithio fwy gan y broblem nag eraill?<br>• Pa gasgliad o ddatrysiadau allai fod yn ddefnyddiol?<br>• Pwy sydd â’r pŵer neu’r gallu i wneud y newid hwnnw? (er enghraifft, allai’r tîm wneud hyn? Rheolwr? Grwpiau ymgynghorol?) | Papur, lein olchi neu gortyn, pegiau dillad |

| Amser | Disgrifiad a gweithgaredd | Gweithgaredd | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| 20 - 30 munud | Deall rhannau rhydd:<br>• I annog meddwl creadigol am rannau rhydd. | Labelwch bum dalen o bapur, bob un gydag un o'r penawdau canlynol arni:<br>• Enghreifftiau o rannau rhydd fyddai'n hawdd cael hyd iddynt yn yr amgylchedd lleol<br>• Enghreifftiau o bethau y gallwch eu gwneud gyda rhannau rhydd (fel adeiladu cuddfan, arbrofi)<br>• Syniadau ar gyfer ffynonellau rhannau rhydd (er enghraifft torion ffatri, iard adeiladu)<br>• Awgrymiadau ar gyfer rheoli rhannau rhydd (er enghraifft, eu gwirio am elfennau peryglus fel hoelion yn dal yn y pren, lle i storio)<br>• Beth yw rôl oedolion mewn sesiwn chwarae gyda rhannau rhydd?<br><br>Rhannwch y cyfranogwyr yn grwpiau bychain, pob un gydag un o'r dalenni mawr o bapur a gofynnwch iddynt ysgrifennu eu syniadau a'u hymatebion.<br><br>Wedi pum munud, gofynnwch i'r grwpiau basio'r papur ymlaen i'r grŵp ar eu chwith fel bod gan bob grŵp ddalen newydd o bapur.<br><br>Nawr, mae angen i'r grwpiau ychwanegu cymaint ag y gallant o syniadau eraill heb ail-adrodd rhai sydd wedi eu nodi eisoes. Casglwch y dalenni papur at ei gilydd a chymharu'r syniadau a gasglwyd. | Dalenni mawr o bapur a phennau ysgrifennu |
| 40 - 60 munud | Creu amgylcheddau ar gyfer chwarae:<br>• I rannu syniadau am nodweddion sy'n cefnogi chwarae'r tu allan<br>• I annog ffocws ar greu amgylcheddau sy'n gefnogol o chwarae | Mewn grwpiau o dri neu bedwar, rhoddwch 30 munud i'r cyfranogwyr i fodelu amgylchedd ar gyfer chwarae – gallai hwn fod yn 'amgylchedd chwarae delfrydol' neu'n fodel fydd yn cymryd y lleoliad i ystyriaeth.<br><br>Gofynnwch i'r grwpiau ystyried:<br>• Pa nodweddion o amgylchedd chwarae cyfoethog ydych chi am geisio eu cynnwys?<br>• Pa rannau rhydd ac adnoddau fyddwch chi'n sicrhau eu bod ar gael?<br>• Pa fathau o chwarae fydd y lleoliad yn eu galluogi?<br>• Sut fyddech chi'n rheoli'r gofod? (Cwestiwn ychwanegol dewisol) | Rhannau rhydd bychan, deunyddiau modelu (fel clai, plastisin, toes cartref)<br><br>Eitemau chwarae defnyddiol a sylfaenol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • I feddwl yn greadigol am yr hyn ellid ei gyflawni, hyd yn oed mewn amgylcheddau anaddawol. | Pwyntiau i'w hystyried:<br>• Sut allai syniadau o'r cynlluniau hyn gael eu defnyddio mewn gwirionedd?<br>• Pa nodweddion sy'n arbennig o boblogaidd?<br>• A oes syniadau fyddai'n wych ond yn anodd eu gweithredu?<br>• A oes unrhyw ddatrysiadau? | |
| 30 munud | Rôl oedolion:<br>• I gynyddu dealltwriaeth a hyder am rôl oedolion wrth gefnogi chwarae. | Gan ddefnyddio'r arddulliau ymyrryd yn Offeryn 13 gofynnwch i'r cyfranogwyr, mewn grwpiau bychain, drafod arddull ymyrryd a'r hyn y gallai ei olygu yn ymarferol. Gall pob grŵp ddewis nifer ohonynt a gweithio trwyddynt cyn ichi ofyn am adborth.<br><br>Hwyluswch adborth oddi wrth y grwpiau.<br><br>Pwyntiau i'w hystyried:<br>• A fydd gwahanol arddulliau ymyrryd yn addas ar wahanol adegau?<br>• A yw rhai arddulliau ymyrryd yn teimlo'n fwy cyfforddus neu'n fwy cyfarwydd nag eraill?<br>• A oes unrhyw un yn y grŵp am ofyn cyngor oddi wrth aelodau eraill o'r grŵp?<br>• A oes unrhyw achlysuron pan fyddai ambell arddull ddim yn addas? | Offeryn 13: Arddulliau ymyrryd |
| 20 munud | Asesu risg-budd<br>• I gynyddu dealltwriaeth a hyder ynghylch darparu her ac ansicrwydd mewn lleoliadau. | Y cyfranogwyr i drafod senarios chwarae ac os byddent yn hapus i adael i weithgaredd ddigwydd ac os byddent, ar unrhyw adeg, yn rhoi stop ar y gweithgaredd.<br><br>Rhowch senarios o gyfleoedd chwarae i'r cyfranogwyr y gellid eu hystyried fel rhai'n llawn risg, er enghraifft:<br>• balansio ar foncyffion<br>• dringo<br>• defnyddio offer adeiladu.<br><br>Gofynnwch i'r cyfranogwyr ddynodi risgiau sy'n rhan o'r gweithgaredd a gosodwch bêl yn y ddysgl gyda'r label 'risg'. Gwnewch yr un peth gyda 'buddiannau'.<br><br>Cymharwch y dysglau a hwyluswch drafodaeth ar sut i eiriol dros y buddiannau a sut i liniaru'r risgiau | Bwcedi plastig clir, dysglau neu bowlenni golchi llestri, un wedi ei labelu gyda 'budd' ac un wedi ei labelu gyda 'risg',<br>peli chwarae |

# Offeryn 20: Cwestiynau i gefnogi ymarfer myfyriol

Mae ymarfer myfyriol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio meddwl am ein rhyngweithiadau gyda'r plant, ein harsylwadau o'u chwarae a chwestiynu'n weithredol ein cymhellion, ein gweithredoedd, ein teimladau neu ein pryderon.

Gellir myfyrio mewn amrywiol ffyrdd yn cynnwys:

- Yn unigol – ysgrifennu mewn dyddiadur, meddwl, nodiadau neu fapiau meddwl, darllen
- Fel grŵp – cyfarfodydd tîm, cyflwyno adroddiadau, goruchwyliaeth gyda rheolwyr, cefnogaeth cymheiriaid
- Yn weithredol – myfyrio wrth wneud, glanhau, gyrru, rhedeg, actio pethau allan.

Mae'n bwysig ein bod, wedi mynd ati'n weithredol i gwestiynu ein hymarfer, yn gweithredu a meddwl am yr hyn y byddem yn ei newid, beth fyddem yn dal i'w wneud yn yr un modd, a sut y byddwn yn rhannu ein myfyrdodau gydag eraill. Dylid defnyddio ymarfer myfyriol i hysbysu ymarfer i'r dyfodol, polisïau, asesu risg a her ac arddulliau sefydliadol.

Wrth weithio trwy fyfyrdod, efallai y byddwch yn meddwl am sesiwn chwarae gyfan, ennyd unigol o chwarae neu gyfres o enydau. Efallai yr hoffech feddwl trwy hyn oherwydd bod y ffordd y deliodd y plant neu'r oedolion gyda'r mater yn dda iawn, yn anarferol neu'n peri penbleth, neu y gellid bod wedi ei wella.



## Pethau i'w hystyried

| Disgrifiwch yr hyn ddigwyddodd |
| --- |
| |
| **Sut wnes i/wnaethom ni ymyrryd?** |
| |
| **Beth oedd yr ymateb i'r ymyriad?** |
| |
| **Beth oedd yr effaith? (i'r plentyn neu'r plant, cydweithwyr, eraill, yr amgylchedd)** |
| |
| **Beth alla' i/allwn ni ei ddysgu o hyn?** |
| |
| **Beth yw'r canlyniadau ar gyfer fy ymarfer/ein hymarfer i'r dyfodol?** |
| |

# Offeryn 21: Rhestr ddarllen – darnau byr gyda chwestiynau myfyriol

**Dylai gweithgareddau chwareus a chwarae'r tu allan fod yn ganolog i leoliadau blynyddoedd cynnar.**

**Rydym wedi creu rhestr o bynciau trafod cryno am chwarae'r tu allan. Mae hwn yn fan cychwyn ar gyfer myfyrio a Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer y rheini sydd â diddordeb mewn gwella cyfleoedd plant i chwarae mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.**

## Hawl plant i chwarae

### Negeseuon allweddol:

- Mae gan bob plentyn hawl i chwarae
- Ni ddylid aberthu hawl plant i chwarae ar draul targedau a dysg academaidd ffurfiol.

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn dweud:

'Mae gan bob plentyn yr hawl i orffwys a hamdden, cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ac adloniant priodol i oedran y plentyn ac i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau'.

Mae Erthygl 31 wedi ei disgrifio fel yr 'hawl angof', felly ar 1 Chwefror 2013 mabwysiadodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol rhif 17 sy'n egluro ymhellach i lywodraethau ar draws y byd ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31.

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn datgan bod addysg plentyndod cynnar 'yn canolbwyntio fwyfwy ar dargedau academaidd a dysg ffurfiol ar draul cyfranogi mewn chwarae ac ennill deilliannau datblygiad ehangach' ac aiff ymlaen i gydnabod nad yw 'y cwricwlwm a'r amserlen ddyddiol yn rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i'r angen am neu ddarparu ar gyfer chwarae, hamdden a gorffwys'.

Felly, i'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, yr her yw sicrhau bod chwarae'n cael ei gydnabod yn ei rinwedd ei hun fel elfen hanfodol o blentyndod pleserus, iach.

### Materion i fyfyrio arnynt:

- Mae hawliau plant yn cynnwys yr hawl i dderbyn addysg, i gredau crefyddol, ac i fod yn rhydd rhag niwed. Yw'r hawl i chwarae'n cael ei ystyried yr un cyn bwysiced yn eich lleoliad chi?
- Beth ydych chi'n ei wneud er mwyn sicrhau bod staff, rhieni a phlant yn ymwybodol o'r hawl i chwarae?

### Darllen pellach:

Mae gwefan Chwarae Cymru'n cynnwys gwybodaeth ac adnoddau pellach ar CCUHP a'r hawl i chwarae.

## Cydbwyso chwarae a dysg chwareus

### Negeseuon allweddol:

- Mae dysg chwareus yn rhan bwysig o'r Cwricwlwm i Gymru a nodau lleoliadau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.
- Mae dysg chwareus yn cael ei strwythuro a'i gynllunio i ryw raddau gan oedolion.
- Mae dal angen gwneud amser i blant chwarae sydd ddim yn cael ei gynllunio neu ei strwythuro gan oedolion.

Pan fydd oedolion yn gweithio gyda phlant i gefnogi eu dysg a'u datblygiad, bydd adegau pan fydd angen iddynt gynllunio a dylunio rhaglenni sy'n cefnogi dysg. Gallai hyn gynnwys gemau neu weithgareddau wedi eu cynllunio y gall y plant ddewis i gymryd rhan ynddynt ai peidio. Mae'n bwysig cydnabod tra gallai'r gweithgareddau hyn fod yn chwareus, nid ydynt yn chwarae oherwydd eu bod yn cael eu cyfarwyddo a'u strwythuro gan oedolion. Yn rhy aml, bydd y term 'dysgu trwy chwarae' yn troi'n 'DDYSGU trwy chwarae' ac mae natur plentyn-ganolog chwarae'n cael ei golli.

Gall gweithgareddau a arweinir gan oedolion gyfoethogi mwynhad, dysg a datblygiad plant yn wirioneddol. Fodd bynnag, mae gwir angen i ymarferwyr a lleoliadau fyfyrio os oes ganddynt gydbwysedd sy'n ffafrio chwarae plant a ddewisir o wirfodd ac a gyfarwyddir yn bersonol, fel y prif ddull ar gyfer dysg a datblygiad plant.



Mae'r oedolion yn y senario hwn yn troi'n hwyluswyr ac arsylwyr sy'n helpu plant i siapio eu dysg eu hunain trwy eu chwarae ac yn sensitif i'r peryglon o gymryd trosodd a gor-gyfarwyddo chwarae'r plant.

### Materion i fyfyrio arnynt:

- Sut fyddwch chi'n creu cydbwysedd rhwng amser sydd wedi ei gynllunio ac amser digynllun?
- Fydd plant yn cael cyfle i chwarae yn eu ffordd eu hunain yn eich lleoliad?
- Sut allwch chi ddefnyddio eich arsylwadau o chwarae plant i'ch helpu i ddeall sut mae plant yn datblygu?

## Gwaith chwarae

### Negeseuon allweddol:

- Mae prif ffocws gweithwyr chwarae ar gefnogi chwarae plant
- Gallai darllen am waith chwarae neu dderbyn hyfforddiant neu gwblhau cymwysterau gwaith chwarae fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymarferwyr chwarae mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Mae gwaith chwarae'n ffordd o weithio gyda phlant ble mae'r prif ffocws ar gefnogi chwarae plant (yn hytrach nag addysg neu ofal). Mae gweithwyr chwarae'n gweithio'n unol â'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ac maent yn aml yn gweithio mewn clybiau ar ôl ysgol, meysydd chwarae antur wedi'u staffio a chynlluniau chwarae dros y gwyliau.

Bydd hyfforddiant gwaith chwarae o ansawdd da'n helpu ymarferwyr blynyddoedd cynnar i ddeall ymagweddau tuag at gefnogi chwarae plant er ei les ei hun. Byddai hyn yn cynnwys:

- defnyddio arsylwi ac ymarfer myfyriol i'n helpu i ddeall chwarae plant
- pryd a sut i ymyrryd (camu i mewn) mewn chwarae plant
- ymateb i giwiau chwarae plant
- sut i daro cydbwysedd rhwng risg a buddiannau i les a datblygiad plant.

### Materion i fyfyrio arnynt:

- Oes unrhyw aelodau o staff eich lleoliad wedi cwblhau hyfforddiant neu gymwysterau gwaith chwarae?
- Oes ffyrdd y gallwch ddefnyddio gwaith chwarae fel dull yn eich lleoliad?
- Sut all gwaith chwarae gefnogi plant yn eich lleoliad ochr yn ochr â gweithgareddau gaiff eu harwain gan oedolion?

### Darllen pellach:

Mae gwefan Chwarae Cymru'n cynnwys gwybodaeth bellach ac adnoddau ar waith chwarae, er enghraifft:

- Gwybodaeth ar gymwysterau a hyfforddiant gwaith chwarae
- Cyfres o ganllawiau gwaith chwarae sy'n egluro'r arddull gwaith chwarae'n fanwl.

## Cymryd risg wrth chwarae

### Negeseuon allweddol:

- Mae cymryd risg wrth chwarae yn bwysig ar gyfer datblygiad a lles plant
- Mae syniad pob plentyn am risg yn wahanol
- Mae angen i ymarferwyr gefnogi plant i gymryd risg ond nid i'w gwthio i mewn i sefyllfaoedd sy'n llawn risg yn ddiangen.

Mae pob plentyn angen ac eisiau cymryd risgiau'n gorfforol ac yn emosiynol wrth iddynt dyfu. Mae hyn yn wir waeth beth yw eu diwylliant neu eu cefndir, neu beth bynnag yw eu amhariadau neu eu hymddygiad.

Mae buddiannau cymryd risg yn cynnwys: ehangu sgiliau, datblygu doniau corfforol ac emosiynol, herio ein hunain mewn ffyrdd newydd ac ennill profiad uniongyrchol o ganlyniadau ein gweithredoedd. Mae bod yn ddewr a choncro ofn yn rhywbeth pwysig iawn i blant ac yn arwydd o dwf.

Mae cymryd risg yn golygu darparu cyfleoedd i bob plentyn wynebu neu greu ansicrwydd a pheryglon posibl fel rhan o'u chwarae. Nid yw'n golygu gosod plant mewn perygl o gael niwed difrifol.

Mae pob plentyn yn wahanol – gallai syniad un plentyn o sefyllfa sy'n llawn risg fod yn wahanol i blentyn arall. Ni fydd ymarferwyr yn gorfodi plant i wneud rhywbeth y maent yn teimlo sydd y tu hwnt iddyn nhw na'u hannog i fynd ymhellach nag y maent yn teimlo'n gyfforddus. Ni fyddant ychwaith yn gadael i'r plant ofalu am eu hunain.

### Materion i fyfyrio arnynt:

- Pa elfennau o gymryd risg sy'n gyffredin yn eich lleoliad chi?
- Yw'r ymarferwyr yn gwybod sut i gefnogi'r plant, mewn modd sensitif, i gymryd risg wrth chwarae?
- Ydych chi'n defnyddio asesu risg-budd yn eich lleoliad chi?



### Darllen pellach:

Mae gwefan Chwarae Cymru'n cynnwys gwybodaeth ac adnoddau pellach ar chwarae a risg.

## Rhannau rhydd

Mae rhannau rhydd yn darparu gwerth aruthrol ar gyfer chwarae a dylid gwneud pob ymdrech i'w darparu mewn rhyw fodd. Efallai y bydd angen i ymarferwyr fod yn ddyfeisgar a chreadigol – efallai mai casglu deunyddiau dinod y gellir eu defnyddio mewn modd hyblyg fydd yn gweithio orau.

Mae rhannau rhydd yn rhoi adnoddau i blant i'w helpu i greu amgylcheddau cyfoethog ar gyfer chwarae. Gan nad yw rhannau rhydd yn gyfarwyddol, maent yn cynnig llawer o bosibiliadau. Yn aml, bydd gan blant dynfa gref at adeiladu cuddfannau a llochesi – gellir gwneud hyn gyda brigau, ffabrig a blancedi. Gellir defnyddio darnau o gardbord i greu arwyddion, tariannau, gwisgoedd a mygydau. Bydd brigau'n troi'n wialen bysgota, llwy yn y gegin neu'n hudlath.

### Darllen pellach:

*Adnoddau ar gyfer chwarae – darparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant* – gydag enghreifftiau o leoliadau ar hyd a lled Cymru, mae'r pecyn cymorth hwn yn arddangos sut y mae darparu deunyddiau chwarae rhannau rhydd yn cynnig cyfleoedd diddiwedd ar gyfer dysgu a chreadigedd ac yn helpu plant i ehangu eu chwarae a'u dysg eu hunain. Mae wedi ei ddatblygu i gefnogi oedolion yn y sectorau chwarae, blynyddoedd cynnar ac addysg i ddarparu chwarae rhannau rhydd yn eu lleoliadau.

### Materion i fyfyrio arnynt:

- Wrth feddwl am gyflwyno rhannau rhydd, neu eu defnyddio'n amlach yn eich lleoliad, beth yw'r cyfleoedd? Beth yw'r heriau? Pa rannau o'r pecyn cymorth allech chi eu defnyddio i ddelio gyda rhai o'r cyfleoedd a'r heriau hyn?
- Sut allech chi gael hyd i fwy ac amrywiaeth ehangach o rannau rhydd?

**Llyfrgell adnoddau**

Mae gan Chwarae Cymru gasgliad o adnoddau defnyddiol i gefnogi chwarae.

# Offeryn 22: Fideos gyda chwestiynau myfyriol

## Fideos Elfennau Hanfodol Gwaith Chwarae

Mae fideos Elfennau Hanfodol Gwaith Chwarae yn gyflwyniadau cryno i elfennau o waith chwarae ac maent yn cynnwys dolenni i adnoddau pellach. Maent wedi'u hanelu at ddysgwyr gwaith chwarae ac unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant sydd am ddeall mwy am ddefnyddio arddull gwaith chwarae.

Mae'r fideos yn darparu trosolwg cryno o agweddau ar ymarfer gwaith chwarae – beth yw'r oblygiadau ar eich cyfer chi mewn lleoliad ysgol?

Allwch chi feddwl am ffyrdd i wreiddio agweddau o arddull gwaith chwarae yn eich gwaith?



## Diolchiadau

Derbyniodd Chwarae Cymru arian oddi wrth Dîm Lleol Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a’r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro i beilota a chyhoeddi’r pecyn cymorth hwn.

Rydym yn ddiolchgar i’r canlynol am eu cefnogaeth a’u cyfraniad:

- Gofal Dydd Poppins
- Meithrinfa Ddydd Laurels
- Meithrinfa Ddydd Plantos
- Meithrinfa Little Scholars
- Swyddog Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Caerdydd
- Tîm Lleol Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a’r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
- Y tîm ymchwil:
    - Yr Athro Helen Dodd, Prifysgol Caerwysg
    - Dr. Lily FitzGibbon
    - Gill Hearnshaw, Prifysgol Caerwys.



## Atodiad 1 – Nodyn briffio methodoleg

Gweithiodd Chwarae Cymru mewn cydweithrediad ag ymchwilwyr o Brifysgol Caerwysg a Phrifysgol Stirling i gynnal ymchwil cychwynnol wnaeth hysbysu datblygiad y pecyn cymorth ac i gynnal gwerthusiad cychwynnol o'r pecyn cymorth. Cynhaliwyd y prosiect mewn chwe cham:

- Cam 1: grŵp ffocws ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Cam 2: datblygu a mireinio'r pecyn cymorth
- Cam 3: datblygu dulliau ar gyfer gwerthuso meintiol ac ansoddol
- Cam 4: cynnal gwerthusiad cychwynnol yn dilyn y peilot
- Cam 5: argymhellion
- Cam 6: cynhyrchu'r pecyn cymorth terfynol.

Awgrymodd Ymarferwyr Iechyd y Cyhoedd sy'n cefnogi'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy leoliadau i gynnal peilot o fersiwn ddrafft y pecyn cymorth. Gwirfoddolodd y lleoliadau i gymryd rhan mewn Grŵp Ffocws Datblygiad, oedd yn cynnwys cynnal peilot o fersiwn ddrafft y pecyn cymorth.

Fe wnaeth trafodaethau'r grŵp ffocws ganolbwyntio ar ddau brif gwestiwn:

1. Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd wrth ddarparu amgylcheddau a phrofiadau chwarae cyfoethog y tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar?
2. Beth allai fod yn ddefnyddiol i'w gynnwys mewn pecyn cymorth i gefnogi darparu amgylcheddau a phrofiadau chwarae cyfoethog y tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar?

Cafodd argymhellion y grŵp ffocws eu hystyried wrth ddylunio'r pecyn cymorth. Cyflwynwyd fersiwn ddrafft y pecyn cymorth i'r grŵp ffocws am sylwadau cychwynnol ac adborth. Hysbysodd negeseuon allweddol o'r adborth hwn waith golygu ar y pecyn cymorth. Yn dilyn hyn, ymwelwyd â lleoliadau ble roedd aelodau o'r grŵp ffocws yn gweithio. Fe wnaeth yr ymweliadau hyn gynnwys trafodaethau anffurfiol a edrychodd yn fanylach ar fersiwn ddrafft y pecyn cymorth, wnaeth helpu gyda mireinio'r pecyn cymorth draft ymhellach.

Er mwyn casglu data meintiol ar gyfer gwerthusiad cyntaf fersiwn ddrafft y pecyn cymorth, datblygodd y tîm ymchwil holiadur ar gyfer ymarferwyr. Casglwyd gwybodaeth ansoddol trwy gynnwys rhywfaint o gwestiynau sylwadau agored. Defnyddiwyd nodiadau manwl o'r grŵp ffocws cyntaf i arwain datblygiad y cwestiynau, ynghyd â thrafodaethau gyda Chwarae Cymru ynghylch nodau'r pecyn cymorth. Fe wnaeth y tîm ymchwil ganolbwyntio'r cwestiynau ar feysydd ble gallem yn rhesymol ddisgwyl i'r pecyn cymorth gael effaith.

Trwy holiaduron, gofynnwyd i'r ymarferwyr a'r rheolwyr yn y lleoliadau peilot, a hynny cyn ac ar ôl iddynt gael mynediad i fersiwn ddrafft y pecyn cymorth, i adrodd ar:

- eu mynediad i wybodaeth am chwarae'r tu allan a sut i'w gefnogi yn eu lleoliad
- yr hyn sy'n helpu ac atal chwarae'r tu allan
- amlder cael mynediad i amgylchedd chwarae cyfoethog, yn cynnwys pa mor hawdd yw hi i feddwl am syniadau i gynyddu cyfleoedd.

Roedd yr holiadur ar ôl y peilot, a ddosbarthwyd wedi i'r lleoliadau gael mynediad i'r pecyn cymorth, hefyd yn cynnwys cwestiynau oedd yn gofyn yn benodol am adborth ar y pecyn cymorth. Datblygwyd fersiwn derfynol y pecyn cymorth yn dilyn argymhellion o'r ymchwil gwerthuso.



Chwarae Cymru
Play Wales

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Tim Iechyd Cyhoeddus
Cardiff and Vale University Health Board
Public Health Team

NHS WALES | GIG CYMRU
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru

Ionawr 2025